

CYNGOR SIR Y FLINT

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## **Y Gwasanaethau Cymdeithasol** 2022/2023

## A BLAENORIAETHAU 2023/24

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Cynnwys.


**ADRAN 1** **Cyflwyniad**

**ADRAN 2** **Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr**

**ADRAN 3** **Sut Mae Pobl yn Siapio ein Gwasanaethau?**

**ADRAN 4** **Hybu a Gwella lles yr Unigolion Sy'n cael Cymorth Gennym**

Plant a Phobl Ifanc
Pobl Hŷn
Anghenion Iechyd Cyffredinol, Nam Corfforol a Nam ar y Synhwyrau
Anableddau Dysgu
Awtistiaeth
Iechyd Meddwl (oedolion)
Gofalwyr
Diogelu

**ADRAN 5** **Sut Rydym yn Cyflawni'r Hyn Rydym yn ei Wneud?**

Ein Gweithlu a Sut Rydym yn eu Cefnogi yn eu Rolau Proffesiynol
Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol
Gweithio mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

**ADRAN 6** **Dewch i Ymuno â'n Tîm**

**ADRAN 7** **Cael Gafael ar Wybodaeth Bellach a Dogfennau Pwysig**

**RHESTR TERMAU**

**ATODIAD 1** **Data Cyd-destunol a Mesuryddion Perfformiad Cenedlaethol**


Caiff Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol ei baratoi dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, sydd eu dwy yn ei gwneud yn ofynnol yn statudol i'r Cyngor adrodd ar ei swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.
Mae copi Saesneg ar gael o'r adroddiad hwn. Os hoffech dderbyn copi o'r cyhoeddiad hwn yn eich iaith gyntaf neu mewn fformat arall fel print bras, braille neu ar dâp, yna cysylltwch â 01352 703020.

Designed and printed by Double Click Design & Print CIC

# Adran 1: Cyflwyniad.

**Mae'r ddeddfwriaeth hon yn canolbwyntio ar les, ac mae ein hadroddiad yn crynhoi'r prif bethau rydym yn eu gwneud yn Sir y Fflint i gefnogi ein trigolion mwyaf bregus. Mae'n disgrifio ein heriau, yn rhoi darlun i'n budd-ddeiliaid o'n perfformiad a sut rydym wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn nodi ein blaenoriaethau at y flwyddyn sydd i ddod.**

Mae'r budd-ddeiliaid yn cynnwys pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein staff, aelodau etholedig, y cyhoedd, ein partneriaid, rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru. Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan annatod o'r hyn rydym yn ei wneud, ac mae'n dylanwadu ar ddatblygiad ein gwasanaethau a'n cynlluniau at y dyfodol.

Yn yr adroddiad, rydym yn gwerthuso ein perfformiad ochr yn ochr â blaenoriaethau gwella'r llynedd ac yn nodi ein blaenoriaethau at y flwyddyn nesaf.

Mae'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad yn ymwneud â'r Safonau Ansawdd Cenedlaethol, sy'n amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol mewn perthynas ag ansawdd y gefnogaeth y dylai awdurdodau lleol fod yn ei darparu.

**Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r un dull â'r llynedd, gan ddefnyddio penawdau Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022, ac o dan bob pennawd, byddwn yn dangos:**

- **Beth oeddem wedi bwriadu ei wneud y llynedd a sut rydym wedi llwyddo**
- **Pa wahaniaeth mae hyn wedi'i wneud i ganlyniadau lles pobl**
- **Beth yw ein hamcanion blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf**
- **Unrhyw wersi a ddysgwyd o'r gwaith a gwblhawyd yn y flwyddyn ddiwethaf**



## Amlinellir y Safonau Isod:

### POBL

**SAG1.1** Mae pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

**SAG 1.2** Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys sy n cael eu cefnogi gan weithio tuag at weledigaeth a rennir.

### ATAL

**SAG 2.2** Mae r angen am ofal a chefnogaeth wedi'i leihau a'r cynnydd o ran angen wedi'i atal, tra n sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni i bobl.

**SAG 2.2** Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas.

### PARTNERIAETHAU AC INTEGREIDDIO

**SAG 3.1** Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cwbl integredig, o ansawdd uchel, cynaliadwy i bobl.

**SAG 3.2** Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at ddyluniad a darpariaeth eu gofal a chefnogaeth fel partneriaid cyfartal.

### LLES

**SAG 4.1** Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwe

**SAG 4.2** Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau hysbys eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw n annibynnol am gymaint â phosibl.

Adran 2:

# Crynodeb o Berfformiad Gan y Cyfarwyddwr

## CROESO i Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol eleni.

**Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddarparu cefnogaeth gadarnhaol i'n trigolion mwyaf diamddiffyn er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, bod ganddynt reolaeth dros eu bywydau eu hunain, eu bod yn cyrraedd eu potensial ac yn byw'n dda yn eu cymunedau.**

### Gwerthoedd Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint:

**Tosturiol, Empathig a Charedig** | **Urddasol a Pharchus** | **Cadarn a Dyfeisgar** | **Egnïol a Brwdfrydig** | **Grymusol, Llawn Cymhelliant a Gonest** | **Dymunol ac Anfeirniadol**

Adlewyrchir Gwerthoedd Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint ar draws y gwasanaethau a gaiff eu darparu gan ein Gweithlu Gofal Cymdeithasol ymroddedig, sy'n parhau i ymrwymo i wella lles drwy gydweithio mewn modd ystyrlon gyda thrigolion, eu teuluoedd, ein darparwyr a gomisiynir a phartneriaid i ddatblygu ein cymuned wydn a dyfeisgar.

### Rydym Wedi Amlygu Rhai o'n Llwyddiannau Allweddol y Llynedd Isod:

- **Mae gwasanaethau preswyl plant wedi datblygu'n sylweddol gyda dau gartref grŵp** bychan a'r gwaith adeiladu sydd bellach wedi'i gwblhau ar ddau eiddo pedair ystafell wely, bydd un o'r rhain yn cael ei ddefnyddio fel llety brys.
- **Datblygwyd ein tudalen Blynyddoedd Cynnar a Chefnogi Teuluoedd fel rhan o wefan Cyngor Sir y Fflint,** a fydd yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2023.
- **Ymgynghorwyd ar y Strategaeth Blynyddoedd Cynnar** Drafft a fydd hefyd yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2023.
- **Mae tîm Rhyddhau, Asesu ac Adfer** newydd wedi cael ei sefydlu gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint i gefnogi dinasyddion yn yr ysbyty a thu hwnt.
- **Ym mis Medi 2022, darparodd Grymuso Rhieni Grymuso Cymunedau** eu trydydd cohort o hyfforddiant Arweinwyr Grwpiau Rhieni.
- **Rydym wedi cynyddu nifer y gofalwyr maeth cyffredinol cymeradwy** ac unigolion cysylltiedig.
- **Mae nifer y Meicro-ofalwyr wedi cynyddu, gydag 11 o bobl ychwanegol yn sefydlu Microfentrau yn Sir y Fflint eleni,** gan ddod â chyfanswm y Meicro-ofalwyr ers sefydlu'r lansiad peilot i 34.
- **Sefydlwyd Bwrdd Prosiect a nodwyd camau gweithredu allweddol i weithredu'r** Strategaeth Ddementia ar gyfer Sir y Fflint.
- **Mae gwaith cynllunio'n mynd rhagddo ar gartref gofal preswyl yn y Fflint,** a fydd yn cynnig gofal preswyl o safon uchel gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf ar draws 4 llawr.
- **Mae Sir y Fflint wedi parhau i arwain Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru.** Mae'r ddarpariaeth o offer cymunedol yn hanfodol ar gyfer hybu annibyniaeth pobl anabl o bob oed.
- **Mae eiddo yn Larchway, Sandycroft, a Glan y Morfa, Cei Connah** wedi cael eu hailwampio i gefnogi pobl gydag anableddau corfforol. Mae gan Sir y Fflint bellach dair uned ar gael i gefnogi pobl sydd angen llety ar frys.
- **Rydym wedi parhau i archwilio ffyrdd gwahanol o ddefnyddio taliadau uniongyrchol gan ganolbwyntio ar gryfder a chadernid,** i helpu teuluoedd i ddefnyddio eu taliadau uniongyrchol mewn modd creadigol a dyfeisgar.
- **Mae'r rhaglen Project SEARCH** i oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth wedi cael ei lansio gyda saith o interniaid yn ymgymryd â lleoliadau gwaith.
- **Lansiwyd y cerdyn adnabod gofalwyr ifanc yn llwyddiannus,** gan weithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr ifanc.
- **Darparodd Gwasanaeth Iechyd Meddwl Next Steps** eu rhaglen wirfoddoli uwch gyntaf gyda phob dysgwr yn cwblhau'r cwrs ac yn derbyn Tystysgrif Lefel 1 mewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol.
- **Llwyddodd Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru** â'u cais am £148,000 o gyllid ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth **Leol Cymru (CLILC) a defnyddiwyd y cyllid hwn i leihau amseroedd aros ar draws Gogledd Cymru.**
- **Mae'r Tîm Awtistiaeth wedi cynllunio,** darparu a mynychu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth a darparu cefnogaeth i Unigolion Awtistig a'u teuluoedd.

**Penodwyd Janet Bellis yn Uwch Bennaeth Gwasanaethau Oedolion newydd eleni, yn dilyn ymddeoliad Susie Lunt.**

Mae Susie wedi treulio'r mwyafrif o'i bywyd gwaith yn gwneud gwaith arbennig iawn i Gyngor Sir y Fflint gan gynnwys datblygu nifer o wasanaethau o'r radd flaenaf gan ei bod yn benderfynol o wella bywydau'r bobl yr ydym yn eu cefnogi.

Roedd Susie'n angerddol am y pwysigrwydd o ddarparu gofal da i'r bobl yr ydym yn gofalu amdanynt, ac o ganlyniad, mae hi wedi ennyn parch ac edmygedd ymhlith Cynghorwyr, Cydweithwyr, Gweision Sifil a Gweinidogion Llywodraeth Cymru, cydweithwyr rhanbarthol a chenedlaethol a phob aelod o staff yn Sir y Fflint.

Hoffem ddymuno'r gorau i Susie yn y dyfodol a chroesawu Janet i'w rôl newydd.

Hoffwn i, a'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Christine Jones, ddiolch o galon i'n staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau rhagorol mewn cyfnod heriol tu hwnt i ddinasyddion yn Sir y Fflint.

Hoffem ddiolch hefyd i'n staff a'n budd ddeiliaid am eu hymrwymiad a'u hymagwedd broffesiynol tuag at berthnasoedd gwaith cadarnhaol a dulliau arloesol i ddatblygu ein Gwasanaethau.





**Neil Ayling**
**Prif Swyddog** Gwasanaethau Cymdeithasol



**Y Cynghorydd Christine Jones**
Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol **Cyngor Sir y Fflint.**




Uchod: **Penodwyd Janet Bellis yn Uwch Bennaeth Gwasanaethau**

Isod: **Susie Lunt Wedi ymddeol Uwch Bennaeth Gwasanaethau Oedolion**

Adran 3:

# Sut Mae Pobl Yn Siapio Ein Gwasanaethau?

## Mae Sicrhau Bod Lleisiau Unigolion Yn Cael Eu Clywed A'n Bod Yn Dysgu Oddi Wrthynt Yn Flaenoriaeth.

Yn Sir y Fflint, rydym yn cysylltu'n rheolaidd gyda'n budd-ddeiliaid ac yn gweithio'n agos gyda nhw i ddatblygu ein gwasanaeth yn unol ag anghenion ein trigolion.

Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu'n parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr gofal Preswyl, gofal Cartref a Byw â Chymorth. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle gwerthfawr i rannu gwybodaeth a rhwydweithio, gan fod cydweithwyr o'r Tîm Iechyd Amgylcheddol, Swyddogion Iechyd a Diogelwch a Swyddogion BIPBC yn eu mynychu.

## Cynnydd i Ddarparwyr

Un enghraifft o'r Cyngor yn cyflawni gwerthoedd pobl leol yw Rhaglen Cynnydd i Ddarparwyr Cyngor Sir y Fflint sy'n cynnig tystiolaeth ac yn gwobrwyo gofal ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Enillodd y cynllun wobr Acolâd Gofal Cymdeithasol am ganlyniadau rhagorol i bobl o bob oedran drwy fuddsoddi yn hyfforddiant a datblygiad staff.



**Aelodau staff cynllun Gofal Ychwanegol Plas yr Ywen yn gafael yn eu tystysgrif arian Cynnydd i Ddarparwyr.**

> **Mae hwn yn gyflawniad gwych i dîm newydd ac rwy'n hynod falch o'r hyn y maent wedi'i gyflawni a'r safonau gofal y maent yn eu darparu bob dydd i'r bobl yn eu gofal**
>
> **Rheolwr**
> **Plas Yr Ywen**



## Gwirfoddoli ym Maes Gofal Cymdeithasol SAG 3.1

FLVC
CGLISFf

**Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint (CGLISFf) wedi parhau i ddatblygu'r prosiect Gwirfoddoli ym maes Gofal Cymdeithasol mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint.**

Mae CGLISFf wedi cefnogi Cartrefi Gofal Sir y Fflint i recriwtio am wirfoddolwyr ac wedi ffurfio cysylltiadau gyda Choleg Cambria i annog myfyrwyr Lefel 2 a 3, blwyddyn 1 Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ymgysylltu â'u cymuned a chefnogi Cartrefi Gofal Sir y Fflint drwy wirfoddoli i gwblhau eu lleoliadau gwaith. Cynhaliwyd lleoliadau gwaith myfyrwyr Coleg Cambria ym mis Mai a derbyniwyd myfyrwyr mewn pum Cartref Gofal, sydd wedi arwain at gyflogi un myfyriwr yn Sycamore Lodge.

Ym mis Ebrill, cynhaliodd CGLISFf Ddigwyddiad Ymgysylltu â'r Gymuned a Recriwtio Gwirfoddolwyr mewn cydweithrediad â Thîm Cymunedol Heneiddio'n Dda 50+ Cyngor Sir y Fflint ym Mhafiliwn Jade Jones yn y Fflint. Roedd 13 o grwpiau cymunedol yn bresennol, sydd wedi galluogi llawer o waith rhwydweithio a recriwtio gwirfoddolwyr.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwirfoddoli, ffoniwch ni ar 01352 744000 neu anfonwch e-bost at volunteers@flvc.org.uk

> **Cwblheais 40 awr o hyfforddiant, roedd fy nyletswyddau'n cynnwys: gwneud diodydd, siarad gyda phreswylwyr a pheintio ewinedd. Y peth gorau am wirfoddoli yn Sycamore Lodge oedd cael cyfle i gyfarfod yr holl breswylwyr**

> **Mae'n ffordd wych i baratoi, a chynnig amgylchedd ymlaciol ac anffurfiol. Cefais gyfle i siarad a rhwydweithio gyda llawer o bobl wyneb yn wyneb, roedd hyn yn hynod ddefnyddiol ac yn hollbwysig**

## Mwy na Geiriau
## SAG 1.1

**Fel awdurdod lleol, rydym yn cydnabod bod gennym gyfrifoldeb a dyletswydd fel arweinydd cymunedol i hyrwyddo, cefnogi a diogelu'r Gymraeg er budd cenedlaethau presennol a'r dyfodol.**

Mae gallu cynnig gwasanaethau i'n preswylwyr mwyaf diamddiffyn yn eu hiaith eu hunain yn golygu gymaint mwy na'r geiriau a ddefnyddir. Mae'n ymwneud ag ymdeimlad o berthyn, cysylltiad, cynefindra, diogelwch, ymddiriedaeth a llawer mwy.
Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o ddathliadau a gweithgareddau Cymraeg wedi cael eu cynnal gyda chymorth a chefnogaeth ein cymuned. Mae preswylwyr Cartref Gofal Marleyfield wedi mwynhau eu hymweliadau gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Westwood sydd wedi bod yn sgwrsio, darllen a chanu yn Gymraeg iddynt.

## Datblygu ein Tudalen We Blynyddoedd Cynnar SAG 4.2

**Yn dilyn ymgynghori gyda Rhieni a Gofalwyr sydd wedi amlygu'r angen am ffynhonnell wybodaeth ganolog, rydym wedi gweithio gyda'r grwpiau hyn i ddatblygu tudalen we Blynyddoedd Cynnar a Chefnogi Teuluoedd, a disgwylir i gam 1 lansio ym mis Ebrill 2023.**

Mae ein gwaith ar y cyd yn parhau, ac rydym bellach yn ceisio eu barn ar rwystrau i ymgysylltu a'r ffyrdd gorau i gyrraedd ein cymunedau.

Yn dilyn hyn, byddwn, gyda'n gilydd, yn canolbwyntio ar lais y plentyn. Bydd y gwaith hwn yn helpu i lywio cynlluniau ar gyfer Rhwydwaith Llais Rhieni, ac yn sicrhau bod rhieni a phlant yn cael eu cydnabod fel budd-ddeiliaid allweddol ac yn cael cyfle i gyfrannu at gynlluniau gwasanaeth.



"Gall y pethau bychain a wnawn heddiw wneud gwahaniaeth yfory"

**L. 8 oed**

## Strategaeth Newid Hinsawdd
## SAG 3.1

**Rydym yn cydnabod bod yr argyfwng hinsawdd yn fater hynod bwysig sy'n wynebu nid yn unig ein trigolion, ond y gymuned ehangach, ein hamgylchedd a'n bywyd gwyllt.**

Ym mis Chwefror 2022, paratôdd Cyngor Sir y Fflint ei **strategaeth newid hinsawdd gyntaf.** Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu hwn yn nodi ein llwybr cychwynnol tuag at gyflawni'r Cyngor di-garbon net erbyn 2030; mae'n ddogfen fyw a fydd yn esblygu wrth i'n dealltwriaeth o sut y gallwn frwydro yn erbyn effeithiau newid hinsawdd ddatblygu.

Drwy weithio drwy'r nodau hyn byddwn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â'r newid hinsawdd ac yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i fod yn genedl ddi-garbon net erbyn 2050.

Dim ond drwy ymgysylltu a gweithio gyda'n trigolion, cymunedau a busnesau y gallwn gyflawni nodau di-garbon net.

Mae rhai o'n cymunedau'n wynebu heriau y gallwn helpu i'w lleddfu drwy leihau tlodi tanwydd, hyrwyddo mannau gwyrdd ar gyfer lles, a datblygu sgiliau gwyrdd a chyfleoedd gwaith.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi buddsoddi mewn mesurau lleihau ynni a chynlluniau ynni adnewyddadwy ers nifer o flynyddoedd.





Mae r strategaeth hon yn gosod y llwyfan ar gyfer ein dyheadau yn y dyfodol o ran mynd i r afael â newid hinsawdd, yn ogystal â chreu Sir y Fflint sy n fwy gwydn a di garbon net.

Yn ogystal â hynny, defnyddiwyd buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i brynu tri cherbyd trydanol Renault Zoe newydd ar gyfer ein tair ardal Gofal Cartref. Mae'r ceir wedi'u lleoli yn Llys Gwenffrwd, Croes Atti a Marleyfield House ac yn cael eu defnyddio bob dydd i ddarparu gofal cartref ar draws Sir y Fflint mewn modd cynaliadwy.

Adran 4:

# Hybu a Gwella Lles Yr Unigolion Sy’n Cael Cymorth Gennym

## Plant a Phobl Ifanc

### Blynyddoedd Cynnar SAG 2.2

**Mae Sir y Fflint wedi ymgymryd â rôl arweiniol o ran y cydweithrediad Integreiddio a Thrawsnewid Blynyddoedd Cynnar Rhanbarthol a ddechreuodd ym mis Mawrth 2022.** Gan weithio’n agos gydag arweinwyr Awdurdodau Lleol, tîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chydweithreda Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru, bydd y gwaith integreiddio a thrawsnewid hwn yn creu’r sylfaen ar gyfer y Strategaeth Blynyddoedd Cynnar yn Sir y Fflint ac yn cefnogi ein gweledigaeth i ‘bob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd’ a dysgu ar y cyd.

Bydd y rhaglen waith barhaus yn cynnwys blaenoriaethau megis ymestyn Dechrau’n Deg, ehangu’r meini prawf cymhwyso i’r Cynnig Gofal Plant i rieni sy’n dilyn cyrsiau hyfforddi, gan ganolbwyntio ar ddarparu gofal plant o ansawdd uchel a darparu digon o lefydd, datblygiad plentyndod cynnar, effaith ar blant a gafodd eu geni yn ystod y pandemig, yn arbennig sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu, a datblygu rhaglenni magu plant gwirfoddol; Grymuso Rhieni Grymuso Cymunedau.

Cynllun Cefnogwr Rhieni sy’n cynnig cyfle i Gefnogwyr Rhieni gwirfoddol weithio gyda’u cymunedau lleol i rannu gwybodaeth gyda rhieni eraill a’u cyfeirio at wasanaethau lleol. Datblygwyd tîm cyfathrebu, gan ddod â chynrychiolwyr o bob maes o’r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Chefnogi Teuluoedd ynghyd i ddatblygu strategaeth a chynllun cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut rydym yn cyfathrebu negeseuon allweddol ac yn ymgysylltu gyda rhieni, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol ar draws ffrydiau cyfathrebu e.e. y cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan, allgymorth, sesiynau galw heibio ar-lein, cefnogwyr rheini. Mae’r grŵp hwn hefyd yn gweithio’n agos gyda’r grŵp Cyfathrebu Rhanbarthol.

### Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd: SAG 3.2

**Mae’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer yr ymholiadau gan aelodau o’r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol sy’n cefnogi teuluoedd.** Mae ein staff hyfforddedig yn prosesu ceisiadau ac yn darparu ymatebion wedi’u teilwra, gan gynnig cyfres benodol o wybodaeth i fodloni anghenion a chanlyniadau.  Mae’r adnodd cronfa ddata ar-lein, Dewis, yn darparu mynediad at wybodaeth ar-lein a thu allan i oriau swyddfa.



### Haf o Hwyl 2022
### SAG 3.1



**Cynhaliwyd Cynllun Haf o Hwyl Sir y Fflint 2022 o 1 Gorffennaf 2022 tan 30 Medi 2022.** Pwrpas y cynllun oedd cefnogi adferiad plant a phobl ifanc yn dilyn effaith pandemig y Coronafeirws drwy roi cyfle i bob plentyn ac unigolyn ifanc rhwng 0 a 25 oed yng Nghymru gael mynediad at weithgareddau rhad ac am ddim sy’n cefnogi eu datblygiad a’u lles.

Gan adeiladu ar lwyddiannau Cynllun 2021, cynhaliwyd ystod eang o weithgareddau gan gynnwys celf, crefft, ysgolion coedwig, chwaraeon a darllen, grwpiau rheini a babanod, a oedd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i’r plant, pobl ifanc a’u teuluoedd a gymerodd ran gael hwyl. Mae hefyd wedi galluogi’r sefydliadau cysylltiedig i ddatblygu cyfleoedd a ffyrdd arloesol o gydweithio y tu hwnt i Gynllun yr Haf.

### Maethu SAG 4.2

**Ers mis Ebrill 2022, mae nifer y gofalwyr maeth cymeradwy a’r gofalwyr sy’n cwblhau asesiad wedi cynyddu.** Mae gwasanaeth y Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig hefyd wedi mynd o nerth i nerth gyda chynnydd yn nifer y Gorchmynion sy’n weithredol a’r teuluoedd sy’n derbyn cefnogaeth.

### Mockingbird SAG 2.2

**Mae’r Model Teulu Mockingbird sy’n dyblygu teulu estynedig ac yn grwpio** gofalwyr maeth o 6-10 o gartrefi maeth yn parhau i ddatblygu a thyfu; gyda chynlluniau i lansio pedwerydd clwstwr ddiwedd 2023.

Mae r effaith gadarnhaol y cafodd cynllun 2022 yn amlwg yn yr adborth uniongyrchol a dderbyniwyd gan y rhai a gymerodd ran:

**“Diolch yn fawr iawn. Mae S wedi cael haf anhygoel yn y digwyddiadau. Mae bob un ohonoch wedi bod yn hyfryd”**

## Arth Faethu SAG 3.1

**Ymgyrch recriwtio sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o faethu yn yr awdurdod lleol ac amlinellu'r** angen brys i recriwtio mwy o ofalwyr maeth yn Sir y Fflint yw'r Arth Faethu. Fe'i lansiwyd ym mis Ionawr 2023, mewn cydweithrediad gydag ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth am faethu yn y gymuned ehangach.

Mae'r Arth Faethu'n rhan o'r tîm maethu ac yn ymuno ag ysgolion cynradd ar hyd a lled Sir y Fflint i gymryd rhan mewn gweithgareddau dyddiol gyda phlant yn y dosbarth. Fe fydd plant yn cael y cyfle i fynd â'r Arth Faethu adref am benwythnos ac yn ystod y cyfnod hwnnw fe fyddant yn gofalu am yr arth. Byddan nhw hefyd yn derbyn Llyfryn yr Arth Faethu sy'n cynnwys gweithgareddau llawn hwyl i'w gwneud yn y dosbarth ac i gofnodi eu hanturiaethau dros y penwythnos.

Fe fydd teuluoedd plant hefyd yn cael y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgyrch hon drwy rannu lluniau a straeon ar y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â sut mae'r Arth Faethu wedi addasu i fywyd gyda'i theulu newydd, gan ddefnyddio'r hashnod #arthfaethu.

## Codi Ymwybyddiaeth SAG 1.2:

**Bu aelodau Tîm Maethu Cymru Sir y Fflint yn brysur iawn yng Ngŵyl Fwyd yr Wyddgrug 2022 Festival** sy'n denu miloedd o bobl o bob cwr o'r sir a Gogledd Cymru.

Pwrpas mynychu'r ŵyl ym mis Medi oedd codi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth maethu yn ogystal â chymryd rhan yn y gymuned a chefnogi digwyddiad gwych.






## Grymuso Rhieni Grymuso Cymunedau SAG 3.2

**Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Grymuso Rhieni Grymuso Cymunedau wedi mynd o nerth i nerth.** Ym mis Medi 2022, darparom ein trydydd cohort o hyfforddiant Arweinwyr Grwpiau Rhieni, a chwblhaodd bum rhiant hyfforddiant i ennill eu tystysgrif a'u Hachrediad Agored.

Darparwyd grwpiau Bod yn Rhiant (ar gyfer rhieni ar draws Sir y Fflint sydd ag o leiaf un plentyn rhwng 2 a 7 oed) mewn ysgolion cynradd, canolfannau cymunedol a Chanolfannau Teulu lleol. Cynhaliwyd sesiynau yn ystod y dydd a gyda'r nosau, wyneb yn wyneb ac ar Zoom er mwyn galluogi gymaint o rieni â phosibl yn Sir y Fflint i gael mynediad at y sesiynau.

Yn 2022, cynhaliodd y tîm Grymuso Rhieni Grymuso Cymunedau hyfforddiant 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' i grŵp newydd o'r enw Babi a Ni wedi'i anelu at blant rhwng 0 ac 1 oed. Ym mis Mai 2022, cynhaliwyd y grŵp Babi a Ni cyntaf gan Arweinwyr Grŵp Rhieni gwirfoddol a oedd wedi cwblhau eu hyfforddiant a ddarparwyd gan y cydlynydd Grymuso Rhieni Grymuso Cymunedau. Hyd yma, mae tri grŵp Babi a Ni wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus. Mae cyfanswm o 21 o rieni wedi mynychu'r grwpiau hyn. Mae'r adborth gan y grwpiau wedi bod yn wych: (dyfyniad i'r dde.)

Rydym yn falch iawn o gael 14 o Arweinwyr Grwpiau Rhieni Gwirfoddol o fewn ein prosiect. Maent yn ased arbennig i'r prosiect ac mae eu hangerdd a'u hymrwymiad yn ychwanegu gwerth eithriadol i'r grwpiau rhianta hyn, maent ar gael yn rhad ac am ddim ar draws Sir y Fflint.

## Eiriolaeth Plant SAG 1.1

**Mae'r Gwasanaethau Eiriolaeth Plant a gaiff eu darparu ar hyn o bryd yn bodloni anghenion poblogaeth Gogledd Cymru.**

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei adolygu ac yn cael ei ddatblygu drwy ail-gomisiynu a datblygu eiriolaeth Rhieni yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

> **Rwyf wedi magu gymaint mwy o hyder fel mam. Bydd y cyngor a'r gefnogaeth ymarferol yn ddefnyddiol iawn i mi i'r dyfodol**

## Datblygu Cartrefi Plant Newydd SAG 4.1

**Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn gyfnod prysur i'n Gwasanaeth Preswyl i Blant.** Mae gennym ddau gartref grŵp bychan, un sy'n cefnogi plant ers mis Ebrill 2022. Mae'r cartrefi hyn yn gallu darparu ar gyfer hyd at ddau o blant sy'n frodyr/chwiorydd.

Ym mis Hydref 2022, cwblhawyd y gwaith o ailwampio dau eiddo mawr arall sy'n gallu darparu ar gyfer hyd at 4 o blant ar unrhyw adeg, ac mae darpariaeth frys ynghlwm ag un o'r cartrefi.

Mae asiantaeth gofal wedi bod yn cefnogi plentyn mewn dau o'n cartrefi ac mae hyn yn mynd yn dda. Rydym ar hyn o bryd yn recriwtio Gweithwyr Preswyl Plant ar gyfer y cartrefi. Wrth i'r aelodau tîm newydd ymuno, mae gennym gynllun ar waith o ran sut gallwn gymryd drosodd y gofal a'r gefnogaeth gan yr asiantaeth yn y ffordd orau i gefnogi plant drwy'r trawsnewidiad.

Mae'r tîm rheoli wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu'r dogfennau, prosesau a'r gweithdrefnau sydd eu hangen ar gyfer y cartrefi. Rydym hefyd wedi cynllunio a threfnu hyfforddiant a datblygiad ar gyfer y gwasanaeth. Gan eithrio'r gofynion cyfreithiol hanfodol, rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar y tai i wneud iddynt edrych a theimlo'n fwy cartrefol, er mwyn paratoi ar gyfer pan fydd y plant yn symud i mewn.

Fel rhan o'r gwasanaeth newydd hwn, mae ein staff a'n rheolwyr wedi bod yn brysur yn meithrin perthnasoedd newydd gyda chymunedau lleol a darparwyr gwasanaeth lleol.

Nodwyd dull gofal i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc a fydd yn byw yn y cartrefi.





## Arosfa SAG 3.1

Mae Gwasanaeth **Anableddau Arosfa'n darparu egwyliau preswyl hirdymor a thymor byr i bobl ifanc ag anableddau dwys** Mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc dreulio amser i ffwrdd o'u cartrefi a'u paratoi ar gyfer dyfodol o fyw'n annibynnol a chyfle i gymdeithasu y tu allan i'r ysgol gyda ffrindiau mewn amgylchedd newydd. Mae hefyd yn rhoi cyfle i rieni a gofalwyr gael egwyl a threulio amser gwerthfawr gydag aelodau eraill o'r teulu a ffrindiau. I rai teuluoedd, mae'r ddarpariaeth hon yn hanfodol er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd.

Eleni, mae'r staff a'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi wedi cael llawer o hwyl yn dathlu 10 mlynedd ers sefydlu Arosfa.





## BLAENORIAETHAU 2023/2024

- **Datblygu dull cenedlaethol, rhanbarthol a lleol mewn perthynas â Thrawsnewid y Blynyddoedd Cynnar er mwyn i bob plentyn rhwng 0 a 7 oed gael y dechrau gorau posibl i fywyd a chyrraedd eu potensial llawn.**
- **Darparu rhaglen o Gartrefi Plant cofrestredig er mwyn osgoi'r angen i leoli plant tu allan i Sir y Fflint.**
- **Parhau i ddatblygu'r Gwasanaeth Gorchmynion Gwarchodaeth i leihau'r angen i blant a phobl ifanc barhau i dderbyn gofal.**
- **Ehangu'r ddarpariaeth gofal plant a chynnig darpariaeth ddi dor ar draws rhaglenni.**
- **Datblygu'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Strategaeth Blynyddoedd Cynnar.**

# Pobl Hŷn

## Tîm Rhyddhau, Asesu ac Adfer, SAG 2.2

**Mae tîm Rhyddhau, Asesu ac Adfer yn dîm newydd a sefydlwyd gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint i gefnogi dinasyddion yn yr ysbyty a thu hwnt.** Mae'n anelu at wella canlyniadau i ddinasyddion Sir y Fflint sydd wedi cael eu derbyn i'r ysbyty a'u cefnogi pan fyddant yn gadael. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn ysbytai acíwt lleol ac ysbytai cymunedol cysylltiedig ar draws y rhanbarth, a gyda'r Tîm Gofal Iechyd Parhaus.

Mae gwaith DART yn dechrau pan gaiff dinasyddion eu derbyn i'r ysbyty. Mae'r tîm yn cadw mewn cysylltiad gyda staff yr ysbyty am gynnydd unigolyn, er mwyn darganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw a gweithredu ar unwaith os oes angen cymorth arnynt i symud ymlaen o'r lleoliad acíwt.

DART yw'r cyswllt gofal cymdeithasol rhwng yr ysbyty a'r gymuned, ac rydym yn anelu at sicrhau trosglwyddiad mor llyfn â phosibl i bobl. Mae ein tîm o Weithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion a Hyfforddwyr Technegol yn gweithio gyda chydweithwyr yn y maes iechyd, gan ddefnyddio fframwaith Llywodraeth Cymru i bennu'r llwybr gofal gorau i ddinasyddion a chefnogi pobl i fyw'n annibynnol.

Gall rhai pobl fynd adref o'r ysbyty heb unrhyw gymorth ychwanegol, ond mae rhai pobl yn ymofyn cefnogaeth yn eu cartref er mwyn iddynt fedru parhau i fod mor annibynnol â phosibl, ac mae ar eraill angen cyfnod byr o ofal preswyl mewn cartref gofal cyn y gallant ddychwelyd adref. Gellir darparu'r gofal preswyl hwn naill ai mewn cartref gofal annibynnol neu yn un o gartrefi gofal yr awdurdod lleol, gan gynnwys ein hadnodd 'camu i lawr' pwrpasol, Elm. Mae'r fframwaith hefyd yn darparu ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal mwy cymhleth, gan gynnwys lleoliadau hirdymor mewn cartref gofal.

**"Beth bynnag yw lefel yr angen gofal cymdeithasol, mae'r tîm yn trefnu i gefnogi pobl sy'n barod i adael yr ysbyty er mwyn iddynt fedru bod mor annibynnol â phosibl, cyn gynted â phosibl. Rydym yn gweithio'n agos gyda thimau eraill ym maes iechyd, gofal cymdeithasol ac ar draws y cyngor ac rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar y perthnasoedd hyn wrth i DART ddatblygu."**

**Ben James**
**Rheolwr Tîm**



## Meicro-Ofal SAG 1.1

**Dechreuwyd y prosiect Meicro-Ofal fel cynllun peilot yn 2019 fel ffordd o gryfhau'r farchnad gofal cymdeithasol ac amrywio'r opsiynau gyrfaol o fewn gofal cymdeithasol, drwy gefnogi pobl i sefydlu eu microfentrau eu hunain o fewn y sector.** Ers hynny, mae'r prosiect wedi parhau i dyfu gyda naw menter ychwanegol wedi eu sefydlu yn Sir y Fflint eleni, gan ddod â nifer y darparwyr gofal cyfredol i 31.

Un o brif lwyddiannau'r prosiect eleni oedd proses y Cyngor o brynu gwasanaethau'n uniongyrchol gan Feicro-Ofalwr am y tro cyntaf. Er mwyn gallu eu comisiynu, mae'n rhaid i Feicro-Ofalwyr basio "Fframwaith Ansawdd" lle mae'n rhaid iddynt brofi bod ganddynt yr adnoddau a'r gallu i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ddiogel ar ran y cyngor. Mae'r gallu i gomisiynu Meicro-Ofalwyr yn uniongyrchol yn darparu adnodd ychwanegol i ni ei defnyddio i fynd i'r afael â'r bylchau mewn cefnogaeth gofal cymdeithasol. Mae'r prosiect hefyd wedi ymestyn i gefnogi'r cynnig "Croeso Cynnes" gan Gyngor Sir y Fflint. Mae pedwar Meicro-Ofalwr wedi cefnogi'r canolfannau amrywiol i sicrhau fod pobl yn gallu cadw'n gynnes yn ystod yr argyfwng costau byw, yn ogystal â lleihau unigedd a chael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau lles.

Mae'r tîm hefyd wedi cefnogi menter Meicro-Ofal i sefydlu gwasanaeth dydd i bobl hŷn â dementia. Mae'r gwasanaeth dydd yn darparu dull gweithredol, gan ganolbwyntio ar weithgarwch ystyrlon gyda'r nod o hyrwyddo a chynnal annibyniaeth, yn ogystal â chefnogi pobl i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau.

Rydym yn ymgysylltu gyda darparwyr Meicro-Ofal ar sail un i un, ac rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd rhwydweithio.

Byddwn yn parhau i gryfhau ein cysylltiadau gyda sefydliadau eraill, asiantaethau sector cyhoeddus, a'r trydydd sector i hyrwyddo'r prosiect, yn ogystal â chynyddu ein hysbysebion yn y gymuned ac yn ddigidol.
I ddarganfod mwy am sut i ddod yn Feicro-Ofalwr neu i chwilio am wasanaeth, ymwelwch â

**https://www.gofalynsiryfflint.co.uk/cy/Meicro-Ofal/Croeso.aspx**
**neu anfonwch e-bost at micro-care@flintshire.gov.uk**





**"Mae gan fy mam ddementia ac mae mynychu'r gweithdy hwn ddwywaith yr wythnos o gymorth mawr i ni ac yn ein galluogi i gael rhywfaint o amser i ni ein hunain. Mae hi'n mwynhau'r diwrnod ac mae'r holl weithgareddau y mae N yn eu darparu'n helpu mam gyda'i lles. Gobeithiaf yn y dyfodol y bydd hi'n gallu mynychu mwy o'r gweithgareddau hyn gan eu bod o gymorth mawr i ni i gyd"**

## Dementia SAG 3.2

**Datblygwyd Strategaeth Ddementia Sir y Fflint yn 2021 mewn ymgynghoriad â phobl sy'n byw â dementia,** eu gofalwyr a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw

**Bydd y blaenoriaethau a gaiff eu gweithredu yn:**

- **Helpu pobl i leihau neu ohirio'r risg o ddatblygu Dementia** ac i adnabod symptomau Dementia.
- **Gwella'r gefnogaeth a'r wybodaeth a ddarperir i bobl cyn,** yn ystod ac ar ôl asesiad a diagnosis o ddementia.
- **Darparu gwasanaethau cymorth a gofal** sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i helpu pobl â dementia i fyw'n dda, yn eu cartref neu'n agos at eu cartref.
- **Darparu cymorth i ofalwyr a theuluoedd,** gan gynnwys cyngor a seibiant a helpu i ffurfio rhwydweithiau cymorth cryf gyda phobl â phrofiad bywyd.
- **Datblygu cymunedau cefnogol a chyfeillgar i ddementia** i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr a'u teuluoedd.
- **Galluogi pobl sydd â phrofiad bywyd o ddementia** i sefydlu llais blaenllaw yn natblygiad gwasanaethau a chymunedau cefnogol.

Mae Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn darparu cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl sy'n byw â dementia yn eu cartrefi eu hunain ac mewn lleoliadau preswyl a gofal ychwanegol.

**Mae Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru** wedi parhau i weithio'n agos gyda thimau Gwasanaethau Cymdeithasol a Byrddau Iechyd i ddarparu rôl allweddol yn cefnogi pobl yn y gymuned.

Mae caffis atgofion a grwpiau cymunedol sy'n deall dementia'n darparu amgylchedd cyfeillgar a chefnogol i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr i gyfarfod yn lleol a mwynhau rhyngweithio cymdeithasol, rhannu gwybodaeth a phrofiadau. Mae hyn yn helpui feithrin perthnasoedd a rhwydweithiau cymorth cryf.

Ar ddechrau mis Ionawr 2023, agorwyd Canolfan Ddementia yng Nghanolfan Fenter Maes Glas dan reolaeth y partner gwasanaeth trydydd sector, Ymddiriedolaeth Gofalwyr. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol a chydweithwyr iechyd yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr i ddarparu cefnogaeth a gwybodaeth gychwynnol i bobl sydd wedi derbyn diagnosis diweddar o ddementia a'u gofalwyr. Mae hyn yn cyfrannu at weithrediad y Gwasanaeth Asesu Cof rhanbarthol yng Ngogledd Cymru, sydd wedi'i alinio â'r Safonau newydd i Gymru Gyfan mewn perthynas â Llwybrau Gofal Dementia.

Bydd blaenoriaethau Strategaeth Ddementia Sir y Fflint yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar y cyd yn 2023 i sicrhau fod pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr a'u teuluoedd yn parhau i dderbyn y wybodaeth a'r gefnogaeth sydd bwysicaf iddyn nhw.

NEWCIS
CEFNOGI GOFALWYR YN Y GYMUNED
SUPPORTING CARERS IN THE COMMUNITY

Working to become Dementia Friendly 2023
Alzheimer's Society

**"Gwnaed cynnydd sylweddol dros nifer o flynyddoedd i greu cymunedau sy'n gyfeillgar i oedran ac sy'n deall dementia yn Sir y Fflint. Mae hyn yn cynnwys sefydlu caffis cymunedol, cefnogi grwpiau gweithredu cymunedol, gwella prosesau rhannu gwybodaeth, a datblygu prosiectau rhwng cenedlaethau a mentrau cynhwysiant digidol."**



## Dinasoedd a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd SAG 2.2

World Health Organization

**Lansiodd Llywodraeth Cymru (LlC) "Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio' ym mis Hydref 2021.** Mae'r strategaeth hon yn darparu gweledigaeth i Gymru fod yn genedl gyfeillgar i oed - gan gefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda a chymryd rhan yn eu cymuned.

I gefnogi'r weledigaeth hon, mae LlC wedi gwahodd bob awdurdod lleol i ymgeisio am aelodaeth rhwydwaith fyd-eang Sefydliad Iechyd y Byd. Ddydd Iau, 23 Chwefror 2023, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir y Fflint gynnig i'r Cyngor gyflwyno cais i fod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o Ddinasoedd a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed.

Yn Sir y Fflint, mae ymrwymiad hirsefydlog i ddatblygu cymunedau cyfeillgar i oed, llofnododd y Cyngor Ddatganiad Dulyn yn 2014, a oedd yn arwydd o ymrwymiad Sir y Fflint i fod yn gyfeillgar i oed. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint wedi blaenoriaethu datblygiad parhaus cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus yng **Nghynllun Lles Sir y Fflint.** Bydd hyn yn cynnwys gwneud newidiadau cadarnhaol i'r agweddau canlynol o fywyd cymunedol, y mae Sefydliad Iechyd y Byd yn eu diffinio fel 'Parthau Cyfeillgar i Oed':

- **Gofod awyr agored ac adeiladau cyhoeddus**
- **Cludiant**
- **Tai**
- **Cyfranogiad cymdeithasol**
- **Parch a chynhwysiant cymdeithasol**
- **Cyfranogiad dinesig a chyflogaeth**
- **Cyfathrebu a gwybodaeth**
- **Cefnogaeth gymunedol a gwasanaethau iechyd**

Bydd y gwaith hwn yn darparu cyfleoedd i bobl hŷn gael lleisio eu barn am y ffordd y caiff cymunedau a gwasanaethau cyfeillgar i oed eu siapio.

**Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn yn llwyr gan y bydd yr aelodaeth yn cael effaith gadarnhaol ac yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi, gwerthfawrogi a dathlu ein poblogaeth sy'n heneiddio. Bydd hefyd yn gyfle i rannu syniadau arfer gorau ac adnoddau gydag aelodau eraill o'r rhwydwaith.**

**Y Cynghorydd Christine Jones**
**Dirprwy Arweinydd ac Aelod**
Cabinet Gwasanaethau
**Cymdeithasol a Lles Sir y Fflint**

## Marleyfield House SAG 2.1

**Agorwyd y cyfleuster 32 gwely Maryfield House ym Mwcle yn dilyn gwaith ailwampio ac ymestyn yn ffurfiol eleni gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Eluned Morgan.** Roedd yr agoriad yn gyfle i breswylwyr yn ogystal â staff, rhai presennol yn ogystal â chyn-aelodau, i ddathlu'r gofal rhagorol y mae'r cyfleuster hwn yn galluogi staff gofal i'w ddarparu. Roedd y digwyddiad yn cydnabod sut gall gwerthfawrogi lles unigolion a darparu adeilad o ansawdd uchel er mwyn i bobl fedru byw yno ac adfer yn dilyn cyfnod mewn ysbyty gael effaith sylweddol a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i les a boddhad byw pobl sy'n mynd yno i aros.



**Roedd yn bleser croesawu'r Gweinidog a gallu dangos ein cyfleuster gwych ym Mwcle iddi. Roedd hefyd yn wych cwrdd â nifer o'r preswylwyr sydd wedi dod i fyw i Marleyfield. Mae hyn yn arwydd o ymrwymiad y Cyngor i fuddsoddi arian mewn gwasanaethau hanfodol. Rwy'n falch bod Cyngor Sir y Fflint yn parhau i gefnogi ein trigolion mwyaf bregus.**

**Y Cynghorydd Christine Jones,** Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cyngor Sir y Fflint

## Gofal Preswyl Newydd Croes Atti yn y Fflint SAG 3.1

**Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i ddylunio cartref gofal preswyl newydd yn y Fflint.** Mae'r safle a arferai fod yn ysbyty cymunedol ar Cornist Road wedi cael ei nodi fel safle lle gellir lleoli cartref gofal preswyl gyda 56 o ystafelloedd gwely. Bydd y cyfleuster hwn yn disodli cyfleuster presennol Croes Atti ar Prince of Wales Avenue gyda chyfleuster modern o'r radd flaenaf, a byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd a'r profiad o ymestyn Marleyfield ym Mwcle a'u datblygu ymhellach er mwyn darparu gwasanaethau rhagorol i bobl hŷn yn y Fflint a'r ardaloedd cyfagos. Yn debyg i Marleyfield, bydd y datblygiad yn cael ei weithredu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Disgwylir i'r prosiect ddechrau ar y safle ym mis Medi 2023 a'i gwblhau a'i agor yng ngwanwyn 2025.





## BLAENORIAETHAU 2023/2024

- **Darparu lleoliadau ychwanegol ar gyfer gofal camu i lawr o fewn ein darpariaeth fewnol (Croes Atti Newydd).**
- **Parhau i dyfu'r farchnad Meicro Ofal gan gynnwys mynediad at becynnau gofal a gomisiynir.**
- **Parhau i ddatblygu ein gwasanaeth cartref gofal mewnol i gefnogi rhagor o bobl i fyw yn eu cartrefi, gan ddefnyddio rhaglen recriwtio dreigl.**
- **Sefydlu Grŵp Gweithredu Strategaeth Dementia, i gynnwys cynrychiolaeth gan bobl sydd â phrofiad bywyd.**
- **Dyrannu contract ar gyfer eiriolaeth oedolion, ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.**

# Anghenion Iechyd Cyffredinol, Nam Corfforol a Nam ar y Synhwyrau

## Llety i Gefnogi Pobl ag Anableddau Corfforol SAG 4.1

**Mae eiddo yn Larchway, Sandycroft, a Glan y Morfa, Cei Connah wedi cael eu hailwampio i gefnogi pobl gydag anableddau corfforol.** Mae gennym bellach dair uned ar gael i gefnogi pobl sydd angen llety ar frys. Mae'r angen diweddar yn cynnwys pobl ifanc, teulu gyda phlentyn anabl, pobl ag anableddau corfforol a'r rheiny sy'n adfer ar ôl bod yn camddefnyddio sylweddau. Mae'r eiddo hyn yn darparu opsiwn amgen gwell na gwesty i bobl ac yn lleihau'r gwariant ar gyfleusterau o'r fath yn y maes tai.

## Menter Cefnogaeth Gymunedol SAG 3.1

**Grŵp o sefydliadau sydd wedi bod yn weithredol yn Sir y Fflint ers 2018 yw'r Fenter Cefnogaeth Gymunedol.** Mae eleni wedi bod yn gyfle i ddechrau deall sut mae anghenion pobl sy'n byw ag anabledd wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â pharhau i ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys rhai newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu i fodloni anghenion unigolion, gan gymryd yr heriau economaidd presennol sy'n effeithio ar y boblogaeth leol i ystyriaeth. Mae eleni wedi bod yn gyfle i ystyried o ddifrif sut gallwn newid y ddarpariaeth gwasanaeth i fodloni anghenion presennol a thymor canolig unigolion sy'n byw ag anabledd yn y gymuned a sicrhau fod Sir y Fflint yn gallu darparu gwasanaethau ystyrlon a buddiol i'r rheiny sy'n byw ag anabledd.

## Cyfarpar Cymunedol SAG 3.1

**Sir y Fflint yw'r awdurdod cynnal a'r partner arweiniol ar gyfer Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd Cymru.**

Mae'r ddarpariaeth o offer cymunedol yn hanfodol ar gyfer hybu annibyniaeth pobl anabl o bob oed. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi derbyn 21,000 o atgyfeiriadau gan dros 500 o atgyfeirwyr.

Mae'r gwasanaeth wedi ymateb i 100% o'i geisiadau am offer brys o fewn y safon ymateb genedlaethol o un diwrnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2022 a 100% o'r ceisiadau o fewn y safon ymateb 7 niwrnod.

Canran yr offer a ail-ddefnyddiwyd yw 94% (yn erbyn safon o 70%) ar gyfer Ebill - Mehefin 2022, a 93% ar gyfer Mehefin - Medi 2022.



## BLAENORIAETHAU 2023/4

- **Taliadau uniongyrchol: arwain ar fentrau taliadau uniongyrchol ar Lefel Genedlaethol.**
- **Cefnogi pobl ag anableddau i aros mewn cyflogaeth.**
- **Cyfeirio unigolion at y trydydd sector a phresgripsiynu cymdeithasol.**
- **Hyrwyddo atgyfeiriadau at y cynllun atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff.**
- **Datblygu llety brys tymor byr i bobl sy'n ddigartref neu angen llety ar frys.**
- **Archwilio'r posibilrwydd o gomisiynu gwasanaethau nam ar y synhwyrau ac anableddau cymunedol ar y cyd.**

# Anableddau Dysgu

## Gwasanaethau Anableddau Dysgu gyda Home Farm Trust (Hft) SAG 3.1

**Mae'r bartneriaeth gyda Hft ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu wedi parhau i esblygu ac arloesi drwy gydol 2022/23.** Mae Hft yn darparu gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu ac anghenion cymorth iechyd meddwl ar ran y Cyngor yng nghanolfan ddydd Hwb Cyfle a lleoliadau gwasanaeth amrywiol eraill sy'n darparu ystod eang o gyfleoedd dydd a gwaith.

Fel rhan o'r esblygiad o fewn gwasanaethau anableddau dysgu a gwaith partneriaeth, mae Hft wedi ymgymryd â rheolaeth weithredol y gwasanaeth Growing Places ym mis Gorffennaf 2022. Arferai Growing Places fod yn wasanaeth cyfleoedd gwaith iechyd meddwl, ond mae bellach yn darparu cefnogaeth i unigolion gydag anableddau dysgu ac anghenion cymorth iechyd meddwl. Roedd y trosglwyddiad yn llyfn iawn, ac mae'r gwasanaeth wedi ffurfio partneriaeth agos gyda'r gwasanaeth dydd garddwriaethol Tri Ffordd.





Uchod: Interniaid a staff yn dathlu graddio eu carfan o interniaid yn 2022 sydd wedi cwblhau rhaglen bontio i waith Project SEARCH yn llwyddiannus yn Sir y Fflint.

## Project Search SAG 2.2

**Mae Project Search yn rhaglen gyflogaeth â chymorth sy'n cefnogi pobl ifanc ag anableddau dysgu i ddod o hyd i waith.** Fe wnaeth pandemig y Coronafeirws atal interniaid rhag mynd allan i'w lleoliadau gwaith, felly penderfynodd yr interniaid ddefnyddio eu hamser mewn modd creadigol ac ystyried sut gallent helpu pobl i ddeall niwroamrywiaeth. Datblygodd yr interniaid becyn hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am niwroamrywiaeth yn y gweithle, a'r buddion sy'n gysylltiedig â gweithio gyda phobl o gymunedau niwroamrywiol i fusnesau.

Ar 17 Mai, darparwyd dwy sesiwn hyfforddiant i staff gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y sesiwn yn ymwneud ag anableddau dysgu, awtistiaeth a dyspracsia. Mae'r adborth o'r sesiwn wedi bod yn hynod o gadarnhaol, ac mae profiad bywyd yr interniaid wedi dod â'r pwnc yn fyw.

Project SEARCH yw'r rhaglen interniaeth gyntaf i oedolion dros 25 gydag anableddau dysgu yn y DU ac fe'i gweithredir mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Clwyd Alyn fel y busnes lletyol. Mae saith intern yn cymryd rhan yn y rhaglen dros 25 ar hyn o bryd ac yn cwblhau eu lleoliad gwaith cyntaf o dri ers mis Medi.

Mae Hft wedi cyflogi cyn intern Project SEARCH fel Eiriolwr Cyflogaeth a Gefnogir a fydd yn helpu gyda marchnata, cysylltu gyda chyflogwyr a chasglu adborth gan fudd-ddeiliaid.

## Maes Gwern SAG 3.2

**Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu adeilad modern newydd yn ardal Maes Gwern yn yr Wyddgrug i ddarparu canolfan wasanaeth integredig a fydd yn cynnwys ail-leoli gwasanaethau cyfleoedd gwaith Growing Places a Tri Ffordd.** Bydd y cyfleuster newydd yn darparu rhagor o gapasiti a gwytnwch i gefnogi rhagor o unigolion na’r hyn sy’n bosibl yn y lleoliadau gwasanaeth presennol ac yn cynnig y cwmpas i ddarparu gwasanaethau ar y safle i unigolion gydag anghenion cymorth awtistiaeth cymhleth.

Mae dyluniad y cyfleuster newydd wedi bod yn destun gwaith datblygu ers hydref 2022 ac mae’r rhaglen yn parhau i fod ar y trywydd iawn, ac mae disgwyl i’r gwaith adeiladu ddechrau yn ystod haf 2023.




## Caffi Dai SAG 2.2

**Ailenwyd y caffi a oedd yn weithredol ar Rowley’s Drive, Shotton yn ‘Caffi Dai’ ac yn dilyn gwaith ailwampio helaeth, cafodd ei ail-lansio yn ystod haf 2022.** Mae ail-lansiad y caffi wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae’r gwerthiant wedi cynyddu gan ddychwelyd i’r lefelau cyn y pandemig Covid-19.

## Byw â Chymorth SAG 1.1

**Mae’r tîm Gwaith Cymdeithasol Anableddau Dysgu wedi bod yn ailffocysu ac adnewyddu eu harferion canolbwyntio ar yr unigolyn.** Bydd rhagor o hyfforddiant a mewnbwn gan bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth yn gwella eu sgiliau creadigol gan sicrhau fod pobl ag anableddau dysgu’n rhyngweithio gyda ni mewn modd ystyrlon. Nid systemau asesu ac adolygu papur yw’r dull mwyaf priodol i bawb, felly byddwn yn annog pobl i gymryd rhan mewn ffyrdd sy’n sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed, felly mae’n bosibl y byddant yn cael eu cefnogi i greu fideos, perfformiadau byw, cerddoriaeth neu unrhyw ddull arall sy’n eu galluogi i fynegi eu hunain.



## Theatr Seren SAG 1.1

**Grŵp celfyddydau perfformio lleol a grëwyd gan grŵp o bobl gydag anableddau dysgu, gyda chymorth gan eu Gweithiwr Cymdeithasol a Hft, yw Theatr Seren.**

Ym mis Hydref 2022, drwy drafodaethau gyda’n defnyddwyr gwasanaeth a’n staff, daeth i’r amlwg bod logisteg, cost ac argaeledd yn peri rhwystr i rai pobl a oedd yn amlwg â diddordeb ac angerdd am y celfyddydau perfformio. Cymerwyd camau felly i sefydlu grŵp celfyddydau perfformio lleol. Daethpwyd o hyd i arweinydd prosiect, gyda degawdau o brofiad yn gweithio yn y sector hwn, ynghyd â lleoliad i’r grŵp. Nod y grŵp yw cefnogi ein defnyddwyr gwasanaeth na fyddent fel arall wedi cael mynediad at grŵp a fyddai’n rhoi cyfle iddynt gymryd rhan mewn rhywbeth unigryw sy’n bwysig iddynt.



Mae’r gwaith cydweithredol wedi bod yn llwyddiant enfawr ac mae’r grŵp bellach yn grŵp annibynnol hirdymor sydd wedi ffurfio ei gwmni ei hun o’r enw Theatr Seren. Mae 14 o oedolion ag anableddau dysgu ynghlwm â Theatr Seren ar hyn o bryd.

Mae’r grŵp wedi dysgu technegau theatr amrywiol gan gynnwys golygfeydd ymladd ar gyfer eu hadrannau slapstic yn ‘Alys’, ac wedi gweithio ar sut i ddefnyddio’r corff i gyfleu cymeriad yn hytrach na dibynnu’n ormodol ar y geiriau.

Mae’r grŵp yn cael hwyl yn chwarae ac yn mwynhau gwaith byrfyfyr sydd wedi amlygu a dathlu creadigrwydd unigryw’r grŵp. I gloi’r flwyddyn yn 2022, cynhaliwyd perfformiad Alys yng Ngwlad Hud a oedd yn hynod lwyddiannus a phoblogaidd, gyda thros 60 o bobl yn gwylio yn y gynulleidfa.

> **“Rwy’n mwynhau dawnsio, gwneud ffrindiau newydd, creu fy ngwisgoedd fy hun a chael amser da fel grŵp”**

## Rhaglen Anableddau Dysgu Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl gydag Anableddau Dysgu SAG 3.1

**Mae'r Rhaglen Anableddau Dysgu Gyda'n Gilydd yn bartneriaeth sy'n cynnwys adrannau gofal cymdeithasol y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.** Nod y prosiect yw cydgynhyrchu gwasanaethau gyda phobl ag anableddau dysgu a'u rhieni a'u gofalwyr. Cafodd y cynllun ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Anrhydedd Gofal Cymdeithasol 2022.

Nod y prosiect yw cefnogi pobl a sefydliadau i sicrhau fod pobl sydd ag anableddau dysgu yn gallu byw bywyd da. Yn 2022, Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: gwasanaethau di-ddor ar gyfer pobl ac anableddau dysgu i gefnogi pobl ag anabledd dysgu i gael yr un cyfleoedd â phawb arall, yn arbennig ar ôl iddynt adael yr ysgol.

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

## BLAENORIAETHAU 2023/2024

- **Parhau i ymestyn y Model Dilyniant ar draws gwasanaethau i bobl gydag anableddau corfforol, a meysydd gwasanaeth eraill sy'n hyrwyddo sgiliau annibyniaeth pobl i'w cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.**
- **Datblygu'r bartneriaeth newydd gyda Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy sy'n anelu at greu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ddiamddiffyn o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.**
- **Parhau i fodloni gofynion pobl ifanc ag anableddau dysgu mewn perthynas â llety.**
- **Datblygu prosiect cymorth cyflogaeth Tri Ffordd i Faes Gwern yn Yr Wyddgrug, a fydd hefyd yn cynnwys gwasanaethau eraill (gwasanaethau iechyd meddwl ac awtistiaeth) fel canolfan gwasanaeth integredig.**
- **Parhau i ymestyn y cynnig gwasanaeth ar gyfer cyfleoedd gwaith i bobl anabl.**



## Awtistiaeth

**Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i fodloni ein dyletswyddau dan God Ymddygiad Llywodraeth Cymru ar ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth, a lletya Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru ar ran y rhanbarth a'r Bwrdd Iechyd.**

## SAG 3.1

Mae'r Cod Ymddygiad yn amlinellu beth allai pobl awtistig, eu rheini a'u gofalwyr ddisgwyl o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae pobl Awtistig wedi bod yn rhan allweddol o'r broses ymgynghori ac yn parhau i siapio'r gwasanaethau rydym yn eu datblygu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Canllawiau i gyd-fynd â'r cod a gellir dod o hyd iddynt yma: **Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth: Asesiad o Effaith**

Mewn ymateb i'r Cod Ymddygiad, mae Sir y Fflint wedi datblygu cynllun gweithredu lleol, ac mae ein staff wedi bod yn ymroddedig a chreadigol yn eu hymdrechion i godi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a darparu cefnogaeth i unigolion awtistig, eu teuluoedd a rhwydweithiau cymorth.

Mae ein digwyddiadau gwybodaeth wedi bod yn boblogaidd iawn ac wedi cynnig cyfle gwerthfawr i bobl gyfarfod ffrindiau newydd a rhannu gwybodaeth. Mae Tîm GAIGC hefyd wedi mynychu dwy sioe sirol fawr, Sioe Dinbych a Fflint a Sioe Sir Feirionnydd, a oedd yn boblogaidd iawn fel y cyntaf ers tair blynedd. Roedd stondin wybodaeth GAIGC yn brysur iawn. Cymerodd nifer o bobl y cyfle i siarad gyda'r gweithwyr cyswllt yno i gynnig cymorth a chyngor ar Awtistiaeth.

Ar ddechrau'r flwyddyn, y gobaith oedd rhoi cynlluniau hirdymor ar waith i hyrwyddo'r tîm a'r gefnogaeth y gallwn ni ei darparu i'r gymuned awtistig nad ydynt eisoes yn derbyn gwasanaethau. Bu'n rhaid i ni ddarparu ein gwasanaethau ar-lein am gyfnod yn sgil pandemig y Coronafeirws, ond rydym bellach wedi mynd yn ôl allan i'r gymuned i weithio'n uniongyrchol â'r cyhoedd. Mae gennym hefyd dudalen Facebook sy'n hysbysebu pob digwyddiad drwy gydol y flwyddyn.



Cynlluniom a darparom dri digwyddiad mawr yng Ngwesty Ramada yn Wrecsam, Gwesty'r Celtic Royal yng Nghaernarfon, a Gwesty'r Imperial yn Llandudno. Mynychodd ystod o ddarparwyr y digwyddiadau hyn i gefnogi unigolion awtistig, ac roedd dros 120 o aelodau'r cyhoedd yn bresennol ym mhob digwyddiad.

Mae ein tîm yn parhau i gynnal boreau coffi a chanolfannau gwybodaeth ar draws Gogledd Cymru yn y chwe sir i gefnogi Unigolion Awtistig a'u teuluoedd. Gallwn gyfeirio pobl at y gwasanaethau cywir ar gyfer eiriolaeth ariannol, sgiliau hyfforddiant cyflogaeth, cyfleoedd gwaith gwirfoddol a gweithgareddau eraill o'r fath. Mae ein tîm yn parhau i weithio gydag oedolion ar sgiliau grymuso megis ymdopi â gorbryder, cwsg, datrys problemau, sefydlu patrymau a strategaethau ymdopi, a mwy.

Rydym hefyd wedi cynnal pum grŵp Deall Awtistiaeth yn ystod y flwyddyn i gefnogi oedolion sydd wedi cael diagnosis diweddar gyda sgiliau ymdopi a dealltwriaeth well o beth mae awtistiaeth yn ei olygu i'r unigolyn. Ym mis Mehefin 2022, cynhaliom Grŵp Teenlife i rieni i gefnogi unigolion yn eu harddegau a oedd yn boblogaidd iawn.

Rydym hefyd wedi darparu hyfforddiant i gyrff allanol megis Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Dwyrain Cymru ar gyfathrebu'n effeithiol gydag unigolion awtistig.

Mae tudalennau Awtistiaeth Sir y Fflint yn anelu at ddod ag ystod o wybodaeth ynghyd er mwyn gallu cyfeirio pobl at y wybodaeth a'r gefnogaeth gywir. Mae'r tîm yn gweithio'n galed i barhau i ddiweddaru hyn wrth i ni ddatblygu a dysgu mwy am gefnogaeth leol. Mae dolenni i wefan Awtistiaeth CymruWales. Mae'n un o'r adnoddau sy'n helpu'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i gyflawni eu nod i wella bywydau pobl awtistig yng Nghymru, ac yn cynnig ystod eang o ffynonellau gwybodaeth, ac adnoddau am ddim y gellir eu lawrlwytho a ddatblygwyd gyda phobl awtistig, rhieni/gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol ar draws Cymru.

AwtistiaethCymru.org
AutismWales.org



## BLAENORIAETHAU 2023/2024

- **Cynyddu sgiliau mewn perthynas ag eiriolaeth yng nghyd destun awtistiaeth.**
- **Bydd hyfforddiant awtistiaeth yn parhau i gael ei gynnig i gontractau darparwyr Eiriolaeth yn y dyfodol yn cynnwys disgwyliadau mewn perthynas â sgiliau a gwybodaeth i gefnogi pobl awtistig.**
- **Datblygu gwasanaethau cyfleoedd gwaith integredig i unigolion ag awtistiaeth, anableddau dysgu ac anghenion cymorth iechyd meddwl.**



## Iechyd Meddwl

**Mae Gwasanaeth Iechyd Meddwl Sir y Fflint yn defnyddio'r 'dull adfer' i gefnogi pobl i wella eu lles drwy fyw'n dda'n annibynnol,** ymuno gyda gweithgareddau cymdeithasol a hamdden, cael eu cyflogi a chymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol neu addysg.

## Rhaglen Lles SAG 4.2

**Mae rhaglen Dysgu er Adferiad a Lles Sir y Fflint yn fenter a ddatblygwyd mewn modd amlasiantaeth** sy'n hyrwyddo gweithgareddau dysgu a chymdeithasol sydd ar gael i unrhyw un yn Sir y Fflint sy'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl a/neu eu gofalwyr.

Nod y rhaglen yw gwella lles unigolion drwy gyfarfod ffrindiau newydd, datblygu hyder a dysgu sgiliau newydd.

Bob blwyddyn, mae Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sir y Fflint yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cinio ar ddydd Nadolig i unigolion sydd ar eu pennau eu hunain ar ddiwrnod sy'n gallu bod yn anodd ac unig iawn i rai pobl. Ers sawl blwyddyn, mae haelioni cymunedau lleol sydd wedi helpu mewn unrhyw ffordd wedi cyffwrdd ein calonnau, ac nid oedd eleni'n eithriad. Hysbysebodd Round Table yr Wyddgrug a Bwcle eu bod yn bwriadu darparu cinio ar ddydd Nadolig yn yr Wyddgrug a Bwcle, a chawson gynnig help llaw ganddynt. Cefnogodd staff y Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl dros ddeg o bobl ar ddydd Nadolig i fynychu lleoliadau yn yr Wyddgrug a Bwcle lle cawsant bryd 3 chwrs ac anrheg i fynd adref gyda nhw. Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl gyda llawer o wenu a chwerthin.

## Camau Nesaf (Next Steps) SAG 3.1

**Mae Next Steps yn darparu cymorth a chanllawiau i bobl ymgymryd ag addysg, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol a chyflogaeth.** Gallant hefyd gefnogi pobl i barhau i weithio os oes ganddynt swydd eisoes. Mae'r tîm Next Steps yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill megis y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, canolan



wirfoddoli CGLlSFf a phrifysgolion a cholegau lleol.

Mae Next Steps yn cynnal eu rhaglen wirfoddoli uwch fel cam ymlaen o'r rhaglen a gynhaliwyd y llynedd. Cynhaliwyd y cwrs o fis Mai tan fis Gorffennaf 2022. Llwyddodd y saith dysgwr i gwblhau'r cwrs a rhoddwyd tystysgrif i bob un ohonynt. Dyrannwyd Tystysgrif Lefel 1 Addysg Bersonol a Chymdeithasol iddynt eleni.

Mae Next Steps yn datblygu rhaglen gyflogadwyedd beilot gyda HFT a Fforwm Busnes Glannau Dyfrdwy ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen hon yn anelu at ddarparu cyflogaeth i unigolion o fewn Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Fel rhan o'r rhaglen hon, mae Next Steps wedi datblygu eu cwrs gwirfoddoli i gynnwys sgiliau cyflogadwyedd a bydd y cwrs newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2023, ac mae naw o unigolion wedi dangos diddordeb yn y cwrs.




## Rhyfelwyr Bywyd SAG 1.1

**Grŵp cymorth therapiwtig a arweinir gan gyfoedion i bobl sydd wedi derbyn diagnosis o, neu bobl sy'n nodi fod ganddynt** anhwylder personoliaeth yw Rhyfelwyr Bywyd. Roedd yn flaenoriaeth eleni i Ryfelwyr Bywyd gael ei arwain gan gyfoedion. Mae hyn bellach yn digwydd, gydag aelodau'n ymgymryd â rolau allweddol o fewn y grŵp, megis cadeirydd, is-gadeirydd, cofnodwr amser a threfnydd digwyddiadau. Mae'r grŵp hefyd yn ymgymryd â rolau arweiniol drwy groesawu aelodau newydd gyda chefnogaeth staff a'u cyflwyno i'r grŵp. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn wythnosol ar-lein, ac yn cynnig rhywle lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cefnogi gan gyfoedion â phrofiad bywyd. Mae'r profiad o deimlo bod rhywun yn eu deall am y tro cyntaf wedi gwneud byd o wahaniaeth i aelodau'r grŵp.

## Cysylltiadau Cymdeithasol yn Cydweithio Gyda Mind ac Aura SAG 3.1

**Mae'r tîm iechyd Meddwl yn cydweithio gyda Mind ac Aura i ddarparu un o'n gwasanaethau galw heibio yn y llyfrgell leol.** Mae'r dull cydweithredol hwn wedi ein galluogi i ddarparu ystod ehangach o

> **Mae'r gofod agored, gonest ac anfeirniadol y mae'r grŵp yn ei gynnig wedi cael effaith arbennig ar aelodau: Rwy'n gallu siarad yn onest am sut 'dw i'n teimlo gyda'r grŵp.**
>
> **Dyma'r peth cyntaf sydd wedi fy helpu... gan fod pobl eraill yn y grŵp sydd yn yr un sefyllfa â mi ac yn deall. Mae fy hyder wedi datblygu'n sylweddol.**
>
> **Aelod o'r Grŵp**
> **Rhyfelwyr Bwyd**



weithgareddau ac wedi'u gwneud yn fwy hygyrch, gall unigolion fanteisio ar yr adnoddau a'r grwpiau sydd eisoes yn cael eu cynnal yn y lleoliad. Rydym hefyd wedi derbyn cyllid i ddefnyddio'r sesiwn fel rhan o'r cynllun canolfannau clyd, sy'n golygu ein bod bellach yn gallu darparu prydau poeth.

## Tîm Cymorth Dwys SAG 4.2

**Mae'r Tîm Cymorth Dwys yn gweithio gyda phobl sydd ag anawsterau amryfal neu â lefelau uwch o anghenion cymorth i fagu'r hyder i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi.** Mae'r tîm yn darparu cymorth un i un i bobl sydd o bosibl mewn perygl o golli eu cartrefi, sydd erioed wedi byw ar eu pen eu hunain o'r blaen neu sy'n dychwelyd i'r gymuned ar ôl cyfnod hir mewn ysbyty neu leoliad gofal arall.

Mae'r tîm wedi gweithio gyda Gwasanaethau Tai, Cymdeithas Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm Iechyd Meddwl Cymunedol Sir y Fflint yn ddiweddar i gefnogi unigolyn sydd wedi derbyn diagnosis o ASD ac ADHD, i symud i gyfleuster byw â chymorth, a gobeithir y byddant yn gallu byw'n annibynnol yn y dyfodol agos unwaith y byddant wedi datblygu eu sgiliau a'u hyder.

## Tîm Byw yn y Gymuned SAG 2.2

**Yn yr un modd, o fewn y Tîm Byw yn y Gymuned, dechreuwyd darparu cefnogaeth i ddynes ym mis Mai 2022.** Y nod a nodwyd ar ei chyfer oedd gallu gadael y tŷ a mynd i'w gardd gefn, a magu'r hyder i wneud hyn, gan nad oedd hi hyd yn oed yn gallu cyffwrdd yr handlen ar y drws. Darparwyd cefnogaeth iddi ddwywaith yr wythnos. Mewn llai na blwyddyn, mae hi wedi gallu gadael y cartref, mynd i siopa ac ymweld â thŷ ei merch ar gyfer y Nadolig ac mae hi bellach yn gobeithio mynychu parti plu a phriodas ei merch yn hwyrach eleni, mae hi hefyd yn awyddus i ddechrau defnyddio cludiant cyhoeddus er mwyn iddi fedru ymweld â'i merch yn annibynnol.

Roedd y cydlynydd gofal yn y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn ddiolchgar iawn i'r staff, a nododd y cynnydd anhygoel yr oeddent wedi'i wneud mewn cyfnod byr.

> **Mae pawb wedi bod mor gefnogol a gwych. Roedd y criw tai yn glên ac yn gwybod bod arnaf angen symud. Daeth y Tîm Cymorth Dwys gyda mi i'r tŷ newydd i'm helpu i symud popeth ac maent bellach yn gwneud trefniadau gydag eraill (Clwyd Alyn, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol) gan mai dyna yw eu gwaith, ac rwyf wrth fy modd yn fy lle newydd. Mae pawb yn dweud y byddaf yn byw'n annibynnol cyn bo hir, ac rwy'n credu hynny hefyd.**
>
> **Defnyddiwr Gwasanaeth,**
> **y Tîm Cymorth Dwys**

## Dyfodol Growing Places SAG 2.1

**Mae Growing Places yn cynnig gweithgareddau gwaith i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn dilyn atgyfeiriad gan eu Cydlynydd Gofal,** ac yn rhoi cyfle iddynt ymgysylltu â hyfforddwyr cyflogaeth gyda chefndir yn y maes garddwriaeth. Mae'r gweithgareddau gwaith yn cynnwys gwasanaeth garddio yn y gymuned leol, a sgiliau adfer dodrefn gardd a gwaith swyddfa.

Nod y prosiect yw cefnogi ac annog pobl i sefydlu patrwm gwaith sy'n eu galluogi i ddysgu sgiliau newydd a symud ymlaen i gyflogaeth neu gyfleoedd hyfforddiant pellach.

Mae ein partneriaeth lwyddiannus gyda HFT wedi cael ei hymestyn i alluogi HFT i reoli Growing Places, ymestyn eu polisi gwirfoddoli, a chaniatáu ar gyfer defnydd cyfun o adnoddau garddwriaethol gyda'r prosiect Tri Ffordd, a chyfleoedd pellach pan fyddant yn symud i leoliad newydd a chyffrous yn yr Wyddgrug.



## BLAENORIAETHAU 2023/2024

- **Cefnogi pobl i gyflawni eu deilliannau lles meddyliol drwy hyrwyddo lles personol a chymunedol drwy gyrsiau mynediad agored sy'n cael eu darparu gan y Bartneriaeth Ddysgu.**
- **Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu llwybrau clir i unigolion sydd angen defnyddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl, a model cynaliadwy i'r dyfodol.**
- **Cwblhau adolygiad o'r ddarpariaeth Iechyd Meddwl Cymunedol a diffinio dull ar gyfer y dyfodol.**
- **Gweithio gyda'r Adran Dai i ariannu tîm bychan o bobl i gefnogi unigolion gyda phroblemau Iechyd Meddwl lefel isel i wella eu tai.**
- **Cefnogi gweithwyr o fewn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i ymdopi gyda'r galw cynyddol ochr yn ochr ag iechyd.**
- **Datblygu cefnogaeth i bobl gyda phroblemau Iechyd Meddwl sydd angen llety.**



# Gofalwyr

## Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc SAG 2.2

**Lansiwyd ein Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc yn llwyddiannus, ac mae nifer y bobl sy'n ymgysylltu â ni ac yn defnyddio'r cerdyn yn cynyddu.** Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu hyn ymhellach, drwy sefydlu cysylltiadau gyda busnesau lleol i gynnig gostyngiadau pris a buddion i bobl ifanc sydd â Cherdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc i ddiolch iddynt am y gwaith maent yn ei wneud fel Gofalwr Ifanc. Ymhellach at hynny, mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i ddatblygu fersiwn ap symudol o'r cerdyn adnabod, a fydd hefyd yn dangos y busnesau sy'n cynnig gostyngiadau pris a buddion ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

## Datblygu'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Ymhellach SAG 2.2

**Gan weithio ar y cyd â Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru,** mae ein Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc wedi gweld datblygiadau sylweddol a chyffrous eleni sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau ein Gofalwyr Ifanc yn Sir y Fflint.

Yn ogystal â chynnig cymorth un i un, mae cynllun llawn o ddigwyddiadau a gweithgareddau wedi cael eu cynnali gefnogi ein Gofalwyr Ifanc a hyrwyddo eu lles. Rydym yn cynnal sesiynau wythnosol rheolaidd gan ganiatáu amser i'n Gofalwyr Ifanc gael seibiant o'u dyletswyddau gofal a chael mynediad at gefnogaeth.

**Dyma gasgliad bychan o'r gweithgareddau sydd wedi bod yn rhan o'n calendr eleni:**

- **Nosweithiau "Ymlacio a Sgwrsio" a "Ffilm a Phitsa"**
- **Sesiynau "Rydym ni'n Wych" yn canolbwyntio ar fyfyrio ar eu cryfderau**
- **Nosweithiau Pampro**
- **Gweithgareddau Ysgol Goedwig**
- **Teithiau Cerdded drwy'r Goedwig**
- **Nosweithiau Crefft**
- **Bowlio**
- **Gwneud Crempogau**



## Ymgysylltu SAG 3.1

**Rydym wedi datblygu cyflwyniad rhyngweithiol i weithwyr proffesiynol yn ein hysgolion lleol am Ofalwyr Ifanc,** aa'r gefnogaeth ychwanegol y byddant o bosibl ei hangen o'i gymharu â'u cyfoedion. Mae'r ymgysylltiad gydag ysgolion wedi galluogi gweithwyr proffesiynol i nodi Gofalwyr Ifanc yn eu dosbarthiadau a darparu'r cyfarpar a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i'w cefnogi. Drwy'r gwaith hwn, mae nifer yr atgyfeiriadau at Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC) ar gyfer cefnogaeth bellach i Ofalwyr Ifanc wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r atgyfeiriadau at GOGDdC yn galluogi'r Gofalwr Ifanc i gael mynediad at ystod eang o ofal a chymorth ychwanegol.

Rydym yn gweld ymateb cadarnhaol i'r gwaith yr ydym yn ei wneud gyda'n hysgolion yma yn Sir y Fflint, ac mae staff a disgyblion yn cefnogi ei gilydd. Er enghraifft, rydym wedi cefnogi Ysgol Uwchradd Alun yn yr Wyddgrug i sefydlu Grŵp Gofalwyr Ifanc o fewn yr ysgol ac maent bellach wedi dechrau cynnal sesiynau galw heibio. Yn ogystal â hynny, mae Ysgol Uwchradd Alyn wedi pleidleisio Gofalwyr Ifanc GOGDdC fel elusen y flwyddyn ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda nhw dros y 12 mis nesaf i ddatblygu ein cysylltiadau ymhellach.

## Cefnogi Gofalwyr Ifanc SAG 3.2

**Rydym wedi gwrando ar ein Gofalwyr Ifanc ac wedi cyflwyno ffyrdd newydd i'w helpu nhw gyda'u pryderon am effaith yr argyfwng costau byw.** Mae hyn yn cynnwys datblygu "siop" chwarterol (am ddim i'r Gofalwr Ifanc) gyda thema wahanol bob blwyddyn. Drwy'r fenter hon, rydym wedi gallu darparu cyfarpar, pethau ymolchi, fflis Oodie, blancedi, hetiau, menig a chynnyrch glanweithiol, eli haul ac eitemau garddio gan gynnwys hadau sydd wedi galluogi ein Gofalwyr Ifanc i dyfu eu perlysiau a'u llysiau eu hunain. Mae'r siop wedi bod yn boblogaidd iawn ymhlith ein grwpiau.

## Haf o Hwyl NQS 2.2

**Mwynhaodd ein Gofalwyr Ifanc ystod eang o weithgareddau fel rhan o Gynllun Haf o Hwyl 2022,** lle cawsant gyfle i wneud nifer o ffrindiau newydd ac ehangu eu rhwydweithiau cymorth.



**"Rwy'n pryderu ei bod yn colli allan neu'n cael ei dal yn ôl oherwydd fy salwch, yn arbennig ers COVID a'r cyfnodau clo. Mae wedi bod yn hyfryd ei gweld yn mynychu'r digwyddiadau hyn dros yr haf eleni, mae hi wedi gwneud ffrindiau newydd ac wedi cael profiadau newydd na fyddwn i wedi gallu eu cynnig iddi, mae ei hapusrwydd a'i hyder wedi datblygu! Rwy'n hynod ddiolchgar am y cyfleoedd hyn y mae hi wedi'u cael"**



## Datblygu'r Cynnig Taliadau Uniongyrchol i Ofalwyr SAG 3.2

**Mae Tîm Taliadau Uniongyrchol Cyngor Sir y Fflint wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â GOGDdC i ddatblygu ac ymestyn y cynnig Taliadau Uniongyrchol i Ofalwyr.** Mae Taliadau Uniongyrchol yn rhoi'r cyfle i'r derbynnydd gael mynediad at y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt mewn modd sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion. Mae nifer y bobl sy'n cael mynediad at y gefnogaeth hon drwy Daliadau Uniongyrchol yn cynyddu ac rydym yn gweld mwy o ffyrdd creadigol ac arloesol o ddefnyddio'r gefnogaeth hon.

## Daffodils SAG 2.2:

**Mae Daffodils yn sefydliad trydydd sector sy'n darparu gweithgareddau a theithiau hamdden i rieni sy'n gofalu am blant a phobl ifanc gydag anableddau corfforol neu feddyliol a'u teuluoedd,** er mwyn iddynt fedru mwynhau amser gyda'i gilydd. Nod eu gweithgareddau yw integreiddio teuluoedd i'r gymuned leol, eu helpu i wneud ffrindiau newydd a chael ymdeimlad o berthyn, lleihau unigedd, cynnig cyfleoedd i gyfoedion gefnogi ei gilydd, gwella lles meddyliol cyffredinol a gwella ansawdd eu bywyd.

Cynhaliodd Daffodils dros 150 o weithgareddau a digwyddiadau yn y flwyddyn ddiwethaf megis gweithgareddau hamdden gan gynnwys nofio a bowlio deg, teithiau cerdded llesol a chiniawau mewn ardaloedd cyfagos, gweithdai celf a chrefft, sesiynau chwarae meddal a chlwb ieuenctid wythnosol. Dros wyliau'r haf, mynychodd 60 o deuluoedd, (dros 200 o unigolion) daith i Barc Coedwig Gelli Gyffwrdd.

Maent yn darparu cefnogaeth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb bob dydd ar ystod eang o bynciau.

## Grŵp Strategaeth Gofalwyr SAG 3.1

**Mae Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir y Fflint yn fforwm ar gyfer sefydliadau sy'n cynrychioli Gofalwyr o'r sector Statudol a'r trydydd sector.** Mae gan y grŵp rôl allweddol yn helpu i siapio strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn datblygu gwasanaethau a deddfwriaeth i ofalwyr.

Mae gwaith wedi cael ei gwblhau i ailddatblygu, adfywio ac ail-ffocysu'r grŵp eleni. Ehangwyd aelodaeth y grŵp i gynnwys rhagor o sefydliadau. Mae cynrychiolwyr Portffolio Addysg Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bellach yn aelodau, ac mae effaith gadarnhaol y trefniadau cydweithio ar draws sefydliadau i sicrhau gwelliannau i ofalwyr yn amlwg.

## BLAENORIAETHAU 2023/2024

- **Mae'r gwaith pellach sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r gefnogaeth i Ofalwyr Ifanc yn eu rôl yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: ddatblygu'r Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc ymhellach, seibiant ac egwyliau i Ofalwyr Ifanc, ymgysylltu gyda chydweithwyr addysg ac ysgolion, ymgysylltu gyda busnesau a chymunedau ar draws Sir y Fflint, cymorth gyda hyfforddiant a chyfleoedd addysg.**
- **Gweithio i ddatblygu ffyrdd newydd i Ofalwyr gael seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu.**
- Costau Byw **Cynllun o weithdai, grwpiau ac adnoddau sy'n anelu at gefnogi ein gofalwyr drwy'r argyfwng costau byw.**
- **Gweithio i ddatblygu rhwydwaith ryngwladol o Ofalwyr a Chanolfannau Gofalwyr i gyfathrebu, rhannu syniadau, cydweithio a darparu cymorth a chyfleoedd seibiant i gyfoedion.**
- **Dechrau'r broses o ystyried ailgomisiynu ein gwasanaethau i ofalwyr o 2025 ymlaen.**

## Diogelu SAG 4.1

**Mae diogelwch a lles plant ac oedolion yn un o brif flaenoriaethau’r Cyngor** ac mae’n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i gadw plant ac oedolion yn ddiogel rhag niwed a rhoi gwybod am unrhyw bryderon.

Mae Diogelu’n cynnwys caethwasiaeth fodern, cam-drin rhywiol, cam-drin ariannol, esgeulustod a radicaleiddio.

Mae’n hollbwysig ein bod yn cydnabod arwyddion o gamdriniaeth ac yn ymwybodol o sut i roi gwybod am hyn.

# Gall Eich Galwad Wneud Gwahaniaeth!

**Ymwelwch â Gwefan Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru.**

**https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/ i ddarganfod mwy am faterion diogelu**

## Wythnos Genedlaethol Diogelu SAG 3.1

**Ym mis Tachwedd 2022, lansiwyd Wythnos Genedlaethol Diogelu.** Gan weithio gyda phartneriaid o gynghorau lleol, y maes iechyd, y gwasanaethau brys, y trydydd sector ac eraill, mae Byrddau Diogelu ar draws Cymru wedi bod yn codi ymwybyddiaeth pawb o ystyr diogelu a’r nifer o sefyllfaoedd lle gall godi.

Mae’r Wythnos Ddiogelu’n arf bwysig i atgoffa pobl o’n cyfrifoldeb ni i gadw pobl yn ddiogel - mae diogelu yn fater i bawb! Mae’n bwysig ein bod yn gallu adnabod yr arwyddion o gam-drin posib ac yn gwybod sut i roi gwybod i eraill.

Roedd Wythnos Ddiogelu 2022 yn amser i sefydliadau ddod ynghyd i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â materion diogelu pwysig. Y thema eleni yw “Chwilfrydedd Proffesiynol”.

Mae Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn anelu at godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o’r effaith mae trosedd casineb yn ei chael ar ddioddefwyr unigol. Mae’n annog dioddefwyr a gwylwyr i roi gwybod am drosedd casineb a helpu i’w rwystro er mwyn gwneud Cymru’n lle mwy diogel. Mae hefyd yn pwysleisio i gyflawnwyr fod eu casineb yn brifo pawb, gan gynnwys eu hunain, gan y gallent gael eu herlyn am drosedd a allai gael effaith ar eu bywydau. Ar sail Cymru gyfan.

BWRDD Diogelu Gogledd cymru

## Wythnos Genedlaethol Diogelu 2023: 13-17 Tachwedd

## “gyda’n gilydd gallwn ni gadw pobl yn ddiogel”



## Diogelu Oedolion a Phlant SAG 3.1

**Mae’r tîm diogelu’n mynychu cyfarfodydd amlasiantaeth yn wythnosol,** yn ogystal â chynnal trafodaethau rheolaidd gyda’r heddlu, i sicrhau fod yr asiantaethau cywir yn eu lle i gefnogi’r unigolion diamddiffyn hyn.

## Trefniadau Diogelu Rhyddid

**Mae Sir y Fflint wedi ymateb i ymgynghoriad y Deyrnas Unedig ar newidiadau arfaethedig i God Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005,** ac i ymgynghoriad Cymru ar reoliadau newydd i gefnogi gweithrediad Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Daeth y ddau ymgynghoriad i ben ar 14 Gorffennaf 2022. Mae’r Cyngor yn parhau i ymrwymo i ddiogelu hawliau’r rheiny sydd heb alluedd meddyliol dan y system Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid bresennol.

## Pecyn e-ddysgu Diogelu Corfforaethol SAG 1.2

**Rydym yn parhau i hyrwyddo’r pecyn e-ddysgu diogelu cenedlaethol i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol,** yn ogystal â sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cynigir hyfforddiant ar-lein i’n partneriaid trydydd sector hefyd. Mae pecyn e-ddysgu Cymru Gyfan wedi cael ei rannu gydag ystod eang o bobl ac rydym hefyd yn annog ein partneriaid trydydd sector i gymryd rhan.

## BLAENORIAETHAU 2023/2024

- **Hyrwyddo’r pecyn e ddysgu corfforaethol.**
- **Archwilio’r posibilrwydd o ail gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth yn rheolaidd.**



Adran 5:

# a) Gweithlu

## Rydym wedi cael blwyddyn hynod o brysur eleni fel tîm, a hoffem rannu rhai o'n cyflawniadau gyda chi, ynghyd â rhai o'r gweithgareddau sydd ar y gweill gennym ar gyfer 2023/24.

**Yn ystod 2022/23, darparom 407 o sesiynau hyfforddi, a chynigom 9,933 o lefydd i weithwyr, gofalwyr, gofalwyr di-dâl, a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar draws lleoliadau gofal cymdeithasol Sir y Fflint, gan gynnwys yn y sector gofal cartref, y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol.** Roedd hyn yn gynnydd o dros 70 o gyrsiau o'i gymharu â'r llynedd gyda nifer y llefydd a gynigwyd wedi treblu bron, sy'n adlewyrchu'r twf a'r symudiad ar draws y sector. Datblygwyd sawl cwrs hyfforddiant newydd gan ein swyddogion Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu gan gynnwys 'Gwerthoedd' ac 'Urddas yn y Gwaith - creu amgylchedd gweithio cadarnhaol', darperir y sesiynau hyn fel rhan o raglen dreigl.

Rydym hefyd wedi datblygu a hwyluso cyfres o sesiynau Cynefino i staff newydd sy'n ymuno â'r Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chefnogaeth uwch reolwyr. Rydym wedi peilota hyfforddiant y tu allan i oriau swyddfa ar gyfer rhai o'n cyrsiau byrrach, gan sicrhau fod ein gofalwyr, cynorthwywyr personol, a'n gwirfoddolwyr yn gallu cael mynediad at hyfforddiant y tu allan i oriau craidd ac ymestyn hygyrchedd.

Er mwyn cefnogi'r Strategaeth Ddementia, rydym wedi darparu hyfforddiant mewn perthynas ag Ymwybyddiaeth Dementia, Dehonglwyr Dementia, Camau o Ddementia, Tlysau mewn Dementia ac wedi darparu wyth sesiwn Ffrindiau Dementia mewnol. Mae'n bleser gennym ddweud bod gennym bellach 35 o ffrindiau Dementia newydd yn dilyn y sesiynau hyn. Cefnogwyd staff Preswyl Plant drwy ddatblygu matrics a chynllun hyfforddiant unigryw. Mae Dolenni i'r Ganolfan Hyfforddiant bellach yn weithredol gyda thrwyddedau ar gael i staff barhau gyda'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus drwy'r nifer o gyrsiau sydd ar gael, yn ogystal â'r rhai sydd ar gael drwy'r Tîm Datblygu'r Gweithlu.

Rydym wedi helpu i weithredu'r Cod Ymddygiad Awtistiaeth drwy sicrhau fod modiwlau e-ddysgu ar gael ac yn hygyrch drwy'r Gronfa Ddysgu ac i staff nad ydynt yn gweithio i CSyFf drwy Awtistiaeth Cymru. Rydym wedi gwella cysylltiadau gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC) drwy gynnig hyfforddiant a gwybodaeth ar anghenion gofalwyr ac asesiadau. Rydym wedi parhau i drefnu trwyddedau ar gyfer ein gofalwyr maeth er mwyn iddynt fedru cael mynediad at hyfforddiant sy'n benodol i'w swyddi a gwella a chefnogi eu swyddi.

Rydym wedi gweithio i gynyddu sgiliau digidol ein gweithlu, gan eu galluogi i ddysgu yn defnyddio technoleg briodol. Gan weithio mewn partneriaeth gyda Chymunedau Digidol Cymru, rydym wedi cynnig hyfforddiant yn ogystal â hyrwyddo Canolfan Ddigidol Sir y Fflint. Mewn partneriaeth gyda Chymunedau am Waith, cynhaliom dair rhaglen 'Llwybr i Ofal Cymdeithasol' yn cynnig hyfforddiant craidd i unigolion di-waith. Lluniwyd y cynllun i helpu i ddarparu'r sgiliau a'r hyfforddiant cychwynnol sydd eu hangen ar gyfranogwyr i fod yn weithwyr gofal/cymorth. Ar ddiwedd bob cwrs, rhoir gwybod i gyfranogwyr am gyfleoedd gwaith yn y sector gofal cymdeithasol ac mae nifer ohonynt wedi llwyddo i gael gwaith ar ôl cwblhau'r rhaglen hon dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.



Rydym wedi gweithio gyda rheolwyr timau Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion i adolygu a chryfhau ein Rhaglen Gynefino 12 wythnos ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso. Rydym wedi adolygu'r rhaglen hon yn ddiweddar yn dilyn adborth gan rai a oedd wedi mynychu'r rhaglen yn ddiweddar.

Rydym wedi cefnogi ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth newydd drwy weithio tuag at ofynion y fframwaith Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth cenedlaethol mewn perthynas â chymwysterau a hyfforddiant perthnasol ar gyfer gweithwyr y rheng flaen.

Rydym wedi cynyddu nifer ein myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar draws ein gwasanaethau i Oedolion a Phlant. Yn 2021, cynigom 4 hyfforddeiaeth gwaith cymdeithasol i weithwyr Sir y Fflint. Yn 2022, cynyddom y cynnig hwn i ddeg hyfforddeiaeth, ac mae gennym naw hyfforddai yn eu blwyddyn gyntaf ar hyn o bryd (un wedi tynnu allan). Rydym wedi cynnig pedwar lle i staff gwaith cymdeithasol sy'n cwblhau cymhwyster Cyn-Ymarferwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy (AMHP), ac mae dau wedi parhau â'r cwrs a dau wedi tynnu allan. Mae tri aelod o staff yn ymgymryd â Gwobr AMHP gyda Phrifysgol Wrecsam (Prifysgol Glyndŵr gynt). Mae 8 aelod o staff cymdeithasol yn cwblhau'r Wobr Asesydd Ymarfer ar hyn o bryd.

Rydym wedi cynnig llefydd ar y Rhaglen Ddatblygu Rheolwyr Tîm a'r Rhaglen Ddatblygu Rheolwyr Canol ac mae gennym aelodau staff yn cwblhau'r ddau gymhwyster ar hyn o bryd. Rydym wedi parhau i gefnogi hyfforddiant cymhwyso gofal cymdeithasol a hyfforddiant ôl-gymhwyso yng Nghymru, gan gynnwys gofynion Fframwaith y 3 blynedd gyntaf i holl Weithwyr Cymdeithasol ôl-gymhwysol newydd mewn swyddi.

Mae Tîm y Ganolfan Asesu wedi parhau i ddarparu cefnogaeth i staff sy'n gweithio o fewn gwasanaethau oedolion: Pobl Hŷn, Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu, Gofal Preswyl a Gofal Cartref i gwblhau'r cymwysterau Craidd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Ymarfer Lefel 2 a 3 hanfodol. Mae nifer o staff wedi derbyn y dystysgrif Craidd ers dechrau'r cymhwyster ac mae disgwyl bellach iddynt barhau i gymhwyster Ymarfer Lefel 2. Mae ein tîm asesu wedi gweithio'n agos gyda City & Guilds, Cymwysterau Cymru, gan ddal i fyny gyda newidiadau mewn cymwysterau a dulliau asesu. Bydd cohort newydd o ddysgwyr yn cwblhau'r broses Gynefino ym mis Mehefin 2023 ac yn dechrau ym mis Gorffennaf, mae cyfanswm o 18 o ddysgwyr newydd ychwanegol. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer cohort arall yn y flwyddyn. Mae'r tîm asesu hefyd wedi cefnogi dysgwyr i gwblhau'r Wobr Lefel 2 Dementia drwy raglen dreigl. Rydym wedi cryfhau perthnasoedd gwaith gyda Choleg Cambria sy'n darparu cefnogaeth i reolwyr gyda chymwysterau Ymarfer Proffesiynol Lefel 4/5 a Pharatoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheoli.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r grŵp Fframwaith Asesu Ansawdd mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan adolygu'r hyfforddiant a'r gefnogaeth addysgol sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws Gogledd Cymru gan weithio ar y cyd i ddatblygu pecynnau addysg a hyfforddiant modern a chyfoes a sicrhau mynediad teg at addysg a hyfforddiant i'n gwasanaethau a gomisiynwyd.

Datblygom raglen hyfforddiant unigryw i'n uwch ymarferwyr gwaith cymdeithasol newydd a fydd yn cael ei chynnal dros y 12 mis nesaf fel rhaglen dreigl. Mae ein perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'n gwasanaethau annibynnol a mewnol yn sicrhau fod ein trigolion yn derbyn y gwasanaeth sydd ei angen arnynt bob amser.

**Enghraifft o ymateb clodwiw ein staff i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu mewn amodau eira peryglus iawn.** Llwyddodd y Gwasanaethau Stryd i gael cerbydau 4x4 i alluogi staff i barhau i ddarparu gofal Cartref i'r rheiny yn yr ardaloedd a oedd wedi'u heffeithio'n arw.



## BLAENORIAETHAU 2023/2024



- Cefnogi gweithrediad safonau diogelu cenedlaethol a datblygiad rhaglen hyfforddiant sy'n alinio â'r grwpiau cymhwysedd o fewn y fframwaith hyfforddiant cenedlaethol.
- Gwella sgiliau digidol ein gweithlu ymhellach.
- Datblygu a Chadeirio is grŵp Hyfforddiant Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Gogledd Cymru.
- Parhau i gefnogi'r Ymgyrch Gofalwn a'r gwaith mewn perthynas â recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol.
- Byddwn yn parhau i ymrwymo i gefnogi'r fframwaith strategol 'mwy na geiriau' drwy sicrhau ein bod yn gallu cynnig hyfforddiant ac adnoddau'n ddwyieithog lle bo angen.
- Cefnogi staff a myfyrwyr gyda llwybr i Ofal Cymdeithasol a Therapi Galwedigaethol.
- Cynnal safon uchel o gyfleoedd hyfforddiant i'n gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofalwyr a'r sector annibynnol.
- Parhau i ddarparu'r cymwysterau Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd Lefel 2 a 3 drwy ein canolfan asesu gan darparu'r cymwysterau hanfodol i'n staff cymorth sy'n gweithio o fewn gwasanaethau oedolion. Byddwn yn cyflwyno rhaglen hyfforddiant Technegau Ymddygiad Cadarnhaol ar draws ein Gwasanaethau Anableddau Dysgu drwy ein pedwar aelod o staff cymwys ac achredig mewnol. Byddwn yn parhau i weithio gyda phrifysgolion a chefnogi hyfforddeion gwaith cymdeithasol drwy eu hyfforddeiaeth 3 blynedd a chynnig cymorth i'n staff Therapi Galwedigaethol sy'n cwblhau eu hyfforddeiaeth.
- Byddwn yn parhau i gefnogi hyfforddiant cymhwyso gofal cymdeithasol a hyfforddiant ôl gymhwyso yng Nghymru, gan gynnwys gofynion fframwaith y 3 blynedd gyntaf i holl Weithwyr Cymdeithasol ôl gymhwysol newydd mewn swyddi.



# b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

## Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

**Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi disodli rhaglen refeniw'r Gronfa Gofal Integredig flaenorol ym mis Ebrill 2022.** Mae rhaglen gyllid 5 mlynedd Llywodraeth Cymru hefyd yn alinio'n agos â rhaglenni trawsnewid rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Plant a Phobl Ifanc, Anableddau Dysgu a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

Bydd Rhaglen y Gronfa Integreiddio Ranbarthol yn parhau i gefnogi darpariaeth prosiectau a gwasanaethau gofal integredig, gan hyrwyddo cydweithrediad agos rhwng Gofal Cymdeithasol, partneriaid Iechyd a'r Trydydd Sector. Mae rhaglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn seiliedig ar yr egwyddorion allweddol o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) **ac wedi'i strwythuro gan ddefnyddio'r chwe dull gofal integredig sy'n anelu at fodloni anghenion grwpiau poblogaeth uchel eu blaenoriaeth:**

- **Gofal yn seiliedig ar leoedd** - Atal a chydlynu cymunedol
- **Gofal yn seiliedig ar leoedd** - Gofal cymhleth yn nes at y cartref
- **Hyrwyddo** iechyd a lles emosiynol da
- **Atal plant** rhag mynd i ofal a chefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd
- **Adref** o'r ysbyty
- **Atebion** yn seiliedig ar lety.

Cefnogir rhaglen refeniw'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gan ddwy raglen gyllid Cyfalaf newydd i fuddsoddi mewn darparu adeiladau gwasanaethau integredig newydd a gwell ar draws Cymru. Y Gronfa Tai â Gofal ar gyfer prosiectau llety a'r Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Gofal ar gyfer canolfannau gwasanaeth integredig ac ail-gydbwyso'r farchnad gofal yw'r rhain.

## Gwerth Cymdeithasol

**Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i ddarparu gwerth cymdeithasol gwell drwy'r gwaith mae'n ei wneud;** tmae hyn yn golygu cael buddion gwell i gymunedau Sir y Fflint o ganlyniad i'w wariant a gwasanaethau. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo i raglen barhaus o waith gwerth cymdeithasol trwy wneud swydd y Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol yn un barhaol.
Y gwerth cymdeithasol a ddarparwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol, chwe mis cyntaf 2022-23 yw £3.156 miliwn.
Mae'r union werth cymdeithasol a gyflawnwyd wedi arwain at ganlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol arwyddocaol yn lleol yn Sir y Fflint.

**Mae rhai o'r uchafbwyntiau allweddol a gofnodwyd ar gyfer Ebrill - Medi 2022 yn cynnwys:**

- **Oddeutu** £2.8miliwn o wariant lleol.
- **200 o wythnosau** hyfforddi prentisiaeth wedi'u cwblhau.
- **190 o wythnosau** hyfforddi unigolion wedi'u cwblhau.
- **135 o oriau gwirfoddoli** staff wedi'u rhoddi i gefnogi cymunedau lleol.
- **1,474 o oriau** wedi'u rhoddi i gefnogi pobl ifanc i mewn i gyflogaeth.

Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi comisiynu ailddatblygiad Cartref Gofal Croes Atti yn y Fflint sy'n cynnwys ymrwymiadau i werth cymdeithasol. Fel rhan o'r contract, bydd gofyn i'r contractwr llwyddiannus fodloni nifer o dargedau gwerth cymdeithasol uchelgeisiol gan gynnwys darparu cyfleoedd gwaith, sgiliau a hyfforddiant lleol, rhagor o wariant lleol, lleihau'r effaith amgylcheddol ac ymestyn y gefnogaeth i gymunedau lleol.

Contract arall a fydd yn cynnwys gofynion mewn perthynas â gwerth cymdeithasol yw'r gwasanaeth cyfleoedd dydd a gwaith yn yr Wyddgrug, a fydd yn disodli'r cyfleuster Tri-Ffordd presennol.

Mae'r datblygiadau arfaethedig yn destun cymeradwyaeth barhaus, ond rhagwelir y bydd yn darparu gwerth cymdeithasol sylweddol.

# 5c) Gweithio mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

## Pwy Ydym Ni?

**Mae Aelodau Etholedig yn cynrychioli trigolion Sir y Fflint ac yn chwarae rhan bwysig o ran llywodraethu'r Cyngor. Maent yn cytuno ar flaenoriaethau'r Cyngor ac yn cymeradwyo polisïau er mwyn gwella'n barhaus.** Mae gan Gyngor Sir y Fflint 67 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli buddiannau eu ward ac sy'n rhan o gyfarfodydd llawn y Cyngor i oruchwylio perfformiad holl agweddau'r Cyngor.

Mae un Aelod yn cael ei ethol gan gymheiriaid i gynrychioli pob maes portffolio. Mae'r rhain yn cael eu galw'n Aelodau Cabinet, ac ar y cyd â'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinwyr, y Prif Weithredwr a Phrif Swyddogion, maent yn ffurfio Cabinet y Cyngor.

## Sut Rydym Ni'n Gwneud Penderfyniadau

**Mae pob Aelod Cabinet yn cael ei gefnogi gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol,** y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw hwnnw. Oherwydd y berthynas waith agos gyda'r Portffolio Addysg ac Ieuenctid, mae'r Cyngor hefyd yn cynnal cyfarfodydd Cydbwyllgor Craffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Addysg ac Ieuenctid, er mwyn trafod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n berthnasol i'r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae Arweinydd a Dirprwy Arweinwyr y Cyngor ac Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd ynghlwm â rhaglen waith y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy Fwrdd Rhaglen y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r Aelod Cabinet hefyd yn mynd i gyfarfodydd Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol bob mis. Mae swyddogion y Cyngor yn cael eu harwain gan y Prif Swyddog Gweithredol sy'n cael cefnogaeth Prif Swyddogion sy'n gyfrifol am bob un o'r meysydd portffolio. Mae gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl statudol "Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol". Nodir trefniadau strwythurol y Cyngor ar gyfer aelodau a swyddogion yn glir. Mae'r cyfansoddiad yn manylu ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn i sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol.
Mae gan y Cyngor hefyd ei broses lywodraethu fewnol ei hun drwy system o archwilio mewnol. Mae canlyniadau archwiliadau'n cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a gellir galw swyddogion i roi tystiolaeth i'r pwyllgor pe bai pryderon yn codi ynghylch eu meysydd gwasanaeth.

## Ein Gwaith Partneriaeth

**Mae gan Sir y Fflint hanes o weithio mewn partneriaeth ac yn Adran 4 rydym yn disgrifio rhai o'r gwasanaethau a'r mentrau rydym wedi'u datblygu gyda chyrff ac asiantaethau eraill.** Wrth wraidd ein diwylliant o gydweithio mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Sefydlwyd y corff statudol hwn ym mis Ebrill 2016, ac mae'n cynnwys uwch arweinwyr o sefydliadau'r sector cyhoeddus ac annibynnol. Ei nod yw sicrhau bod partneriaid statudol a thrydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd i reoli blaenoriaethau cyffredin drwy gydweithio, ac mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u nodi yn Asesiad Lles Sir y Fflint 2022.

Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2016 hefyd ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolaeth o gyrff statudol, partneriaid trydydd sector, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn gweithio i integreiddio a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng Ngogledd Cymru ac mae wedi bod yn llwyddiannus â'i gynnig am gronfa newydd gan Lywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gydweithio'n agos, gyda chyfarfodydd strategol rhwng y Prif Weithredwyr a'r Arweinwyr yn cael eu cynnal bob dwy flynedd. Mae nifer o gyfarfodydd ar y cyd drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfod craffu pob chwe mis lle mae gwahoddiad i gydweithwyr yn y maes iechyd i ateb cwestiynau gan aelodau etholedig.

Mae ein perthynas gyda'r sector gwirfoddol yn parhau i gael ei chryfhau drwy ein rhan yng Nghompact y Sector Gwirfoddol.
Mae'r bartneriaeth deirffordd hon rhwng y Cyngor, y Bwrdd Iechyd a'r sector gwirfoddol yn creu cyd-ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall, ac yn ein galluogi i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth. Mae'r aelodau'n cynnwys y Prif Swyddog a Chadeirydd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, aelodau eraill y sector gwirfoddol, y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor ac un o Uwch Reolwyr y Bwrdd Iechyd.





Adran 6:

# Dewch i Ymuno â'n Tîm

## Mae'n Chwa O Awyr Iach!

### Pryd oedd y tro diwethaf i chi feddwl pa mor hyfryd o wahanol oedd eich diwrnod?

### Pryd oedd y tro diwethaf i chi gael moment o ddweud 'IA'?

**Yr adegau arbennig hynny'n sy'n eich atgoffa pam eich bod wedi dewis Gwaith Cymdeithasol neu Therapi Galwedigaethol i gychwyn. Mae'r adegau yma'n digwydd yma ac maent yn newid bywydau er gwell.**

Mae Sir y Fflint yn chwa o awyr iach mewn cymaint o ffyrdd. O'r arfordir hyfryd i'r trefi, pentrefi a phentrefannau sydd yn creu'r sir wych hon, fe fyddwch chi'n gweithio yng nghalon cymunedau, gyda chefnogaeth cydweithwyr sydd â ffordd o feddwl cwbl wahanol. Rydym ni'n angerddol am y gwahaniaeth rydym ni'n ei wneud i fywydau pobl. Rydym ni'n gwneud hynny trwy fod yn wahanol. Rydym ni'n dweud 'na' wrth ddulliau arferol, disgwyliedig a thraddodiadol. Rydym ni'n dweud 'ia' wrth fynd yn groes i'r graen, ac i feddwl yn arloesol. Ac i agweddau dewr. Mae'r rhyddid meddwl yma'n ein cysylltu ni fel tîm ac yn ein cysylltu i gyfleoedd i ddysgu a datblygu ein sgiliau.

### Anadlwch. Gwnewch wahaniaeth.

### Byddem yn falch o glywed gennych chi!

**RecriwtioGwasanaethauCymunedol@siryfflint.gov.uk**







Adran 7:

# Cael Gafael Ar Fwy O Wybodaeth A Dogfennau Pwysig

## Dolenni i Ddeddfwriaeth a Gwybodaeth am Ofal Cymdeithasol:

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth
Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru
Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
Asesiad o Les yn Sir y Fflint 2022

## Dolenni i Ddogfennau Strategol Allweddol Cyngor Sir y Fflint:

Cynllun y Cyngor 2018-2023
Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2018 - 2023
Sir y Fflint Digidol 2017-2022

## Gwasanaeth Cwsmeriaid: 01352 703020

# Rhestr Termau:

## Eiriolaeth

**Y weithred o siarad ar ran neu o blaid person arall.** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Y sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb o £1.3 biliwn a gweithlu o dros 17,000 o staff. Mae'n darparu gwasanaethau ysbyty cynradd, cymunedol, iechyd meddwl ac acíwt i boblogaeth Gogledd Cymru.

## Plant sy'n Derbyn Gofal

**Mae plentyn dan ofal awdurdod lleol** os bydd llys wedi rhoi gorchymyn gofal i leoli plentyn mewn gofal, neu fod adran gwasanaethau plant y cyngor wedi gofalu am y plentyn am fwy na 24 awr.

## Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

**Rhaglen waith a ariannir gan Lywodraeth Cymru rhwng y Cyngor,** Bwrdd Iechyd a Phartneriaid Trydydd Sector i sicrhau bod gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd i bobl hŷn (yn y lle cyntaf) yn cael eu cydlynu'n dda, yn cyflawni beth sy'n bwysig i unigolion ac yn cael eu darparu mor agos â phosibl i gartrefi pobl.

## Diogelu Rhag Colli Rhyddid

**Fframwaith cyfreithiol sy'n diogelu pobl sy'n byw mewn cartrefi** gofal neu ysbytai sy'n agored i niwed oherwydd anhwylder meddyliol ac nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu hanghenion llety a gofal eu hunain.

## Taliadau Uniongyrchol

**Mae'n rhoi arian yn uniongyrchol i'r defnyddwyr i dalu am eu gofal eu hunain,** yn hytrach na'r ffordd draddodiadol o gael gofal gan Awdurdod Llywodraeth Leol.

## Gofal Ychwanegol

**Tai wedi'u dylunio gan roi ystyriaeth i anghenion defnyddwyr gwasanaeth** sy'n darparu amrywiol lefelau o gymorth sydd ar gael ar y safle ac yn hybu byw'n annibynnol.



## Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)

**Sefydliad ymbarél a chefnogaeth** far gyfer dros 1200 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint.

## HFT

**Home Farm Trust gynt.** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi comisiynu HFT i ddarparu cyfleoedd dydd a gwaith i bobl ag anableddau dysgu yn y sir.

## Y Gronfa Gofal Integredig

**Cronfa Llywodraeth Cymru sy'n** "ceisio ysgogi a galluogi gwaith integredig rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Tai a'r trydydd sector a'r sectorau annibynnol".

## Trefniadau Diogelu Rhyddid

**Hawliau a mesurau pwysig** i ddiogelu pobl 16 oed a hŷn sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid neu y mae angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid er mwyn galluogi eu gofal neu driniaeth ac sydd â diffyg gallu meddyliol i gydsynio i'w trefniadau, i ddisodli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid presennol.

## Cronfa Integredig Rhanbarthol

**Mae'r Gronfa hon yn disodli'r Gronfa Gofal Canolraddol.** Mae'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Gronfa o fis Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2027. Mae'n adeiladu ar y cynnydd a wnaed dan y Gronfa Gofal Integredig ac yn helpu i integreiddio Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llyw.Cymru).

Atodiad 1

# Data Cyd-Destunol A Mesuryddion Perfformiad Cenedlaethol

## Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

- **Nifer y cysylltiadau newydd i oedolion** a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn 9,214
- **Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol** yn ymwneud ag oedolion yn ystod y flwyddyn pan gafodd cyngor neu gymorth eu rhoi 6,862 (mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys 996 o o gysylltiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol statudol a arweiniodd at gyngor a chymorth gan ein gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol).
    - **Nifer yr asesiadau** newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn 6,609
- **% yr asesiadau lle'r aethpwyd ymlaen i lunio cynllun gofal a chymorth er mwyn cyflawni'r canlyniadau 11%**
- **Ar ddiwrnod olaf y flwyddyn roeddem yn helpu 1,079 o bobl dros 65 oed i fyw yn eu cartrefi a 487 o bobl hŷn mewn cartrefi gofal.**
- **% y bobl â phecyn cymorth yr adolygwyd eu pecyn gofal o fewn y cyfraddau amser angenrheidiol 72%**
- **Nifer y bobl a gwblhaodd becyn ail-alluogi yn ystod y flwyddyn 194**
- **Cafodd 1,944 o oedolion sy'n ofalwyr eu hadnabod a'u hatgyfeirio at ein darparwyr gwasanaethau gofalwyr.**
- **Nifer y bobl a gomisiynodd eu gwasanaethau eu hunain drwy daliad uniongyrchol 559**
- **Nifer yr adroddiadau diogelu** oedolion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn 895
- **% o'r rhain a ddatblygodd** yn ymholiadau Adran 126 a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod 88%.
- **Nifer yr achosion sy'n** aros am asesiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn Sir y Fflint 259



## Gwasanaethau Plant

- **Nifer y cysylltiadau** â'r gwasanaethau statudol a dderbyniwyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 12,495
- **Nifer y cysylltiadau** hyn y darparwyd cyngor neu gymorth ar eu cyfer 9,301
- **Nifer y teuluoedd** a dderbyniodd wybodaeth a chymorth drwy'r Canolbwynt Cymorth Cynnar 1,383
- **Nifer y plant ar** Gofrestr Diogelu Plant Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2023 216
- **% y cynadleddau amddiffyn** plant cychwynnol a'r cynadleddau adolygu a gynhaliwyd o fewn y cyfraddau amser
- **Cynadleddau** Cychwynnol 90%
- **Cynadleddau Adolygu 99%**
- **% y plant a ychwanegwyd** at y gofrestr a oedd yn rhai a ail-gofrestrwyd o fewn 12 mis o'u dadgofrestru 12%
- **Yr amser cyfartalog** yr arhosodd plant ar y gofrestr 9.84 mis
- **Nifer y plant â chynllun** gofal a chymorth lle'r oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth 2023 106
- **Nifer y plant/pobl** ifanc a adawodd ofal yn ystod y flwyddyn 63
- **Nifer yr asesiadau** newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn 2,206
- **% ohonynt a aeth** ymlaen i fod â chynllun gofal a chymorth 18%
- **% ohonynt a oedd** ag anghenion y gellid eu diwallu drwy unrhyw un o'r dulliau 65%
- **% ohonynt nad oedd** ganddynt unrhyw anghenion cymwys 16%
- **Nifer y plant a oedd** yn derbyn gofal yn Sir y Fflint ar 31 Mawrth 2023 246